








Y STAMP

RHIFYN 10 : HAF 2020



ALAW FFLUR TOMOS | GARETH EVANS-JONES | RADHA PATEL | MEGAN HUNTER
MELISSA RODRIGUES | GEORGIA RUTH | CEINWEN JONES | ANGHARAD PRICE



Y STAMP

CYHOEDDIAD ANNIBYNOL A GWIRFODDOL

Rhifyn 10

Hawlfraint © 2020 Y Stamp

Argraffwyd yng Nghymru gan Y Lolfa

Golygydd gan Grug Muse, Llŷr Titus ac Esyllt Lewis

Cysodi gan Grug Muse

Celf y clawr gan Anya Paintsil

*

Barn awduron unigol a gyhoeddir yn Y Stamp, ac nid o reidrwydd rhai'r cylchgrawn a'r bwrdd golygyddol. Gall cyfraniadau i'r cylchgrawn hwn gynnwys rhegfeydd, iaith gref a deunydd aeddfed ar brydiau.

*

Hysbysebion: Er mwyn hysbysebu yn rhifyn nesa'r Stamp, cysylltwch gyda golygyddion.ystamp@gmail.com

*

Cyflwyno gwaith: Mae'r Stamp yn croesawu cyflwyniadau digymell o waith i golygyddion.ystamp@gmail.com. Croeso i chi anfon darnau o ryddiaith neu ysgrifau o hyd at 2,000 o eiriau, neu hyd at dair tudalen o farddoniaeth. Er mwyn sicrhau fod gennym amser digonol i ymateb i bob cyfrannydd, gofynnwn nad ydych yn cyflwyno mwy nag un darn pob 3 mis. Os nad ydych yn clywed yn ôl o fewn pythefnos, gofynnwn eich bod yn gyrru neges i'n hatgoffa.

*

Diolch, fel arfer, i'n cyfrannwyr hoff ac i chi, y darllenydd x

| | |
|--|----|
| Golygyddol | 5 |
| Cofiwch Dryweryn - Ceinwen Jones..... | 8 |
| 10 rhifyn o'r Stamp - Angharad Price..... | 9 |
| Snogio trwy sanau - Hammad Rind ac Efa Edwards..... | 10 |
| Barddoniaeth - Alaw Fflur Tomos | 12 |
| Datganiad WAARU | 14 |
| Cartrefi Cymru - Gareth Evans-Jones | 16 |
| Ffotograffiaeth - Melissa Rodreigues | 18 |
| Poster - Radha Patel..... | 20 |
| Celf - Carlota Nóbrega..... | 22 |
| Dim ond ni sydd ar ôl - Megan Hunter | 25 |
| Pererin - Georgia Ruth..... | 26 |
| Ymateb i Gelf - Ela Pari a Cerys Hafana..... | 28 |
| Adolygiadau | 30 |
| Celf y clawr - Anya Paintsil..... | 36 |
| Bywgraffiadau | 37 |

GOLYGYDDOL

Mae'r rhif 10 yn un crwn, handi ac yn dipyn o garreg filltir wrth feddwl am amrywiol bethau ond am rifynnau 'da ni'n meddwl heddiw yn benodol. Mae yna bedair mlynedd ers i syniad y Stamp ffurfio yn Nhŷ Newydd a thair ers i ni gyhoeddi'n rhifyn cyntaf. Dair blynedd yn ôl pan daflwyd rhifyn cyntaf y Stamp i'r byd roedd gwneud un rhifyn yn ddigon ac yn destun dathlu. Doedd meddwl ymhell ddim o reidrwydd yn flaenoriaeth ar y pryd -- cicio a stampio oedd hwnnw.

Ond fel Golygyddion fe osodom ni fanifesto mewn lle, datganiad o'r hyn yr oeddem ni'n gobeithio ei gyflawni. Newidiodd pethau gryn ddipyn ers hynny: daeth Cyhoeddiadau'r Stamp i'r byd, ehangodd sgôp y cylchgrawn, gadawodd Miriam a daeth Emyllt yn olygydd. Mae Stamp 2020 yn wahanol iawn i Stamp 2017, yn yr un modd ac y mae'r byd o'n cwmpas ni'n wedi newid. Ydi hi'n amser felly i ni addasu'n Addewidion dair mlynedd ers i ni eu nodi nhw gyntaf?

Dyma nhw'r addunedau gwreiddiol, ac ambell sylw newydd:

ADDUNEDAU


1) Bwriadwn roi llwyfan i AMRYWIAETH llenyddol a chelfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg – lleisiau amgen, lleisiau ifanc, lleisiau lleiafrifol, lleisiau o bob ban byd. Agor ffiniau a chwalu waliau.

Roedd yna gryn ddipyn o naifrwydd ar y pryd wrth i ni fwrw ati: wrth feddwl am amrywiaeth, roedd ein byd ni'n llawn fwy cyfyng nad ydi o heddiw. Er ein bod ni wedi cynnwys lleisiau newydd a gwahanol yn Y Stamp, ac wedi llwyddo i gael canrannau fwy hafal neu niferoedd uwch na nifer o gyhoeddiadau Cymraeg eraill, nid wrth gymharu ag eraill (a rhicynnau isel yn aml iawn) y mae gwella. Daw'r ddihareb 'nid da lle gellir gwell' i'r meddwl, ac yn sicr mae lle i'r Stamp fod yn well. Nifer gymharol isel o gyfraniadau gan bobl anabl sydd gennym, er enghraifft, ac mae lle i gynnwys gwaith gan bob carfan sy'n parhau i gael ei thangynrychioli ym myd llenyddol a chelfyddydol Cymru.

Yn amlach na pheidio wrth fynd ati i geisio chwalu un wal daw rhywun yn ymwybodol fod yna un arall yn syth y tu ôl iddi. Nid proses y mae modd dod i ben â hi yw hon ond yn hytrach un barhaus sy'n datblygu'n gyson wrth i ffiniau newid.

2) Bwrw ati i GREU gwaith waeth pa amodau a'i RANNU gydag unrhyw adnoddau sydd ar gael i ni. Ewyllys yw ein ceffyl da.

Mae'r Stamp yma byth ac wedi datblygu i fod yn gyhoeddwr hefyd a hynny heb unrhyw gyfraniad o bres cyhoeddus o gwbl.



Mae'r amodau wedi bod yn ddigon heriol ond fe ddaeth y Stamp drwyddi gan fanteisio ar hyblygrwydd ein ffordd ni o fynd o'i chwmpas hi. Mae'n cyfrannwyr ni wedi bod yn rhan bwysig o hyn hefyd wrth gwrs, yn fodlon ymddiried eu gwaith a chynnig eu hamser i ni a hynny am ddim hefyd. Fyddai'r Stamp heb oroesi na ffynnu oni bai am hynny.

3) Cloddio am waith a anghofwyd gan y status quo. Amlygu bod MWY i lenyddiaeth Cymru na chaeau gwyrddion ac argyfyngau gwacter ysbryd. Mae mwy nag un fath o farddoniaeth – nid ydym am barhau gyda gwneud fetich o gerddi caeth – a dathlu rhyddiaith sy'n mentro tu hwnt i rigol realaeth.

Eto, digon bychan oedd ein byd pan ddechreuodd y syniad hwn roeddem ein pedwar yn meddwl bod gennym ni grap go lew ar lond llaw o enwau anghofiedig fel Gwerful Mechain. Mae'r golofn Ail-Bobi wedi bod yn llwyddiannus ac yn rhan bwysig o'n bwriad i gyflawni'r nod yma, ond wrth i ni fel Golygyddion ddal ati fe ddaeth yn gynyddol amlwg fod gennym waith mawr nid yn unig i rannu gwaith grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli ond hefyd i ddod o hyd iddynt.

Mi drafodwyd gwneud adolygiadau o waith y gorffennol hefyd gan geisio ehangu'r canon cul o waith 'da' y mae nifer ohonom yn ei gael wedi ei daflu atom drwy'r system addysg. Wnaeth y syniad hwnnw ddim cydio ond wrth edrych ymlaen rhaid cydnabod fod gennym ni waith tynnu mwy o waith a phobl o'r cysgodion.

4) Nid oes yn rhaid wrth sêl bendith beirniaid eisteddfodol – mae ymdrechu i greu darn o waith yn ddigon o wobwr, heb fynd ar ofyn yr un cadair na choron. RHYDD i bob bardd neu lenor gystadlu, pe bai eisiau, ond pwysleisir nad oes rhaid.

Tydi'r llwybr llenyddol arferol ddim yn siwtio pawb -- mae hynny'n gwbl wir ac yn gwbl ddilys. Ein gobaith wrth ddatgan hyn a drwy bwysleisio'r peth oedd y byddai pobl sydd ddim yn teimlo'n gyfforddus hefo'r byd llenyddol Cymraeg traddodiadol yn ein gweld ni'n opsiwn arall, fwy agored. Drwy hynny daeth gwaith pobl oedd yn teimlo nad oedden nhw'n gweld eu hunain yn perthyn i'r sîn arferol atom ni. Ond rydan ni hefyd yn falch o gyhoeddi gwaith ennillwyr ac wedi cyhoeddi gwaith rhai ddaeth yn agos at y brig droeon hefyd. Cynnig yr un lle i bawb ydi'r peth a pheidio aros i rywun ennill gwobr gan gymryd fod hynny'n farc o safon ynddo'i hun.

5) DATHLU pob math o Gymraeg, boed yn enfys ieithyddol frith a thafodiaith neu'n gywir gywrain ac yn gyfoethog o eiriau mawrion.

Polisi o ymyrraeth olygyddol ysgafn sydd gan Y Stamp. Wnaethom ni erioed benderfynu ar hynny yn swyddogol ond mi ddigwyddodd yn ddigon naturiol; rydym felly yn ceisio cadw llais pob cyfrannydd mor driw ac y medrwn. Ar adegau mae sgwennwyr wedi nodi nad ydi penderfyniadau golygyddol wrth eu bodd nhw ac rydym ni'n derbyn hynny wrth gwrs; awgrymu ac nid deddfu ydan ni wrth ddarllen gwaith pobl. Rydym wedi cynnwys amrywiaeth eang o dafodieithoedd a chyweiriau, ac am barhau â hynny.

6) Mentro, gyda DEWRDER, i ddweud ein dweud ac ymwrthod â hunan-sensoriaeth a MYNNU GONESTRWYDD mewn byd lle mae dweud y gwir wedi dod yn weithred radical.



Daeth y Stamp i'r byd gyda ffræ. Yn fuan wedi i'r maniffesto gwreiddiol gael ei gyhoeddi bu'n rhaid i Grug a Miriam fynd ar Radio Cymru i gyfiawnhau'r ffaith ein bod ni wedi meiddio datgan nad oedden ni'n poeni rhyw lawer am gywirdeb iaith. Mi ddywedwyd bryd hynny na fyddai cylchgrawn o'r iawn ryw yn cynnwys iaith wallus am y byddai hynny'n gyfystyr â mynd a mul i'r Grand National. Rydym ni yma yn hoff o fulod – maen nhw i ddechrau cychwyn yn bethau digon del ond heblaw am hynny, maen nhw'n styfnig ac yn fwy na bodlon rhoi cic haeddianol nawr ac yn y man.

Mae gonestrwydd yn gysyniad mawr. Rydan ni wedi trio meithrin gofod lle mae cyfrannwyr yn teimlo'n saff i fynegi barn onest, trwy gyfrwng ein hadolygiadau lled-ddienw, ond trwy hefyd fynnu'n gadarn nad oes croeso i hiliaeth, homophobia, trawsffobia, ablaeth nac unrhyw ffurf arall o gasineb ar dudalennau'r cylchgrawn.

Ac wrth gwrs, rydan ni wedi tynnu ambell berson/sefydliad/gyfri trydar i'n pennau. Mae isho chydig bach o hwyl weithia does?

7) Creu gwaith newydd a gwahanol gan HERIO ein hunain yn ogystal â'r darllenwyr.

Wel, mae sefydlu a chynnal cylchgrawn, gwefan a gwasg wedi bod yn ddipyn o her... ond yn werth ei wneud wrth gwrs. Peth digon anodd i'w fesur ydi pa mor heriol ydan ni wedi bod – i rai mae cael cerdd rydd gan ferch mewn cylchgrawn fymryn yn gauche. Chi fel darllenwyr biau dweud faint mae'r Stamp wedi'ch herio chi. Parhew'n i herio gyda'n gilydd.

Manifesto diwygiedig 2020

1) Bwriadwn roi llwyfan i AMRYWIAETH llenyddol a chelfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddatblygu ac ehangu ar ein canfyddiad o ystyr 'amrywiaeth'. Byddwn yn barod i wynebu gwirioneddau anghyfforddus a rhoi clust i feirniadaeth sy'n anodd ei dderbyn; a defnyddio'r wybodaeth honno i dyfu a gwella hygyrchedd ein cyhoeddiadau i gyfranwyr a chynulleidfaoedd o bob cefndir.

2) Byddwn yn cynnal yr egwyddor o beidio derbyn nawdd cyhoeddus, gan gadw ein hannibyniaeth a'n gwrthrychedd yng nghyd-destun y byd celfyddydol Cymreig. Gweithredwn ar sail ewyllys da a chydweithio.

3) Cloddio yn ddyfnach am waith a anghofwyd gan y status quo, gan dderbyn bod gennym ninnau fel golygyddion ein rhagfarnau, a gwthio y tu hwnt i'r syniadau hynny. Sicrhau ein bod nid yn unig yn tynnu sylw at y gweithiau hyn, ond yn gwneud yn siŵr eu bod yn hygyrch i genhedlaeth newydd gael mynediad atynt.

4) Cofio nad oes yn rhaid wrth sêl bendith beirniaid cystadleuaeth, ac mai canran o bobl yn unig sy'n gyfforddus â'r syniad o 'gystadlu' â'u gwaith creadigol.

5) DATHLU pob math o Gymraeg, gan gadw'n driw i lais pob cyfrannwr, a golygu yn ysgafn a sensitif mewn proses sy'n gweithio'r ddwy ffordd. Bod yn agored ein meddyliau ynghylch yr hyn ydyw 'cywirdeb iaith', gan dderbyn mai rhywbeth hylifol yw iaith ac ni ddylid deddfu'n haearnaidd yn ei gylch.

6) Mentro, gyda DEWRDER, i ddweud ein dweud ac ymwrthod â hunan-sensoriaeth a MYNNU GONESTRWYDD mewn byd lle mae codi llais yn erbyn casineb yn parhau yn weithred radical. CYD-SEFYLL â grwpiau sydd yn profi anghyfiawnder yn eu herbyn a bod yn well EIRIOLWYR a CHYNGHREIRIAID i'r bobl hynny. Yn fwy na dim, GWRANDO.

7) Creu gwaith newydd a gwahanol gan HERIO ein hunain yn ogystal â'r darllenwyr. Dal i fwynhau. Dal i drïo pethau newydd.

Ymunwch gyda ni. Cysylltwch. Cyfrannwch. Crëwch.

Y Tîm Golygyddol: Grug Muse, Esyllt Lewis, Iestyn Tyne a Llŷr Titus

Gorffennaf 2020

COFIWCH DRYWERYN

llên meicro

CEINWEN JONES

Ysgrifennais y darnau hyn yn nhrydedd flwyddyn fy ngradd y llynedd ac enillais y Gadair yn Eisteddfod Ieuenctid Marian Glas yn 2019 gyda'r cyntaf o'r straeon meicro hyn, a'r darn 'Dychmygwch' sydd eisioes wedi'i gyhoeddi ar wefan y Stamp. Roedd ysgrifennu'r darnau meicro hyn yn her newydd i mi am ddau reswm. Yn gyntaf roedd y genre llên meicro'n newydd i mi ar y pryd, ac yn ail roedd seilio fy ngwaith ar ddigwyddiad penodol amlwg hefyd yn newydd. Ond fe wnes i wir fwynhau eu sgwennu nhw a fyswn i'n hoffi eich annog chi i gyd i drio sgwennu rhywbeth!
– Ceinwen

1.

Gafaelodd yn y brws a'r tun o baent coch, yn barod i drwsio'r cam. Lledaenodd lliw y genedl ar draws y graig, yn gwneud safiad cryf dros Gymru a'r Cymry, pob un.

Golchodd ei ddwylo. Gwelodd y paent yn cymysgu â'r dŵr. Gwylodd wrth iddo lifo i lawr y draen ...

A diflannu.

2.

Ar gyfrifiaduron mewn gweithdai ar draws Cymru mae pinnau yn symud ac inc yn cael ei ledaenu. Y graig yn llwyd. Y paent yn goch. A'r geiriau'n dangos yn wyn llachar dros y cyfan. Yn y ffatrioedd mae'r dyluniad yn troi'n inc ar bapur, ar ddefnydd ac ar glai. Mae'n fyw ar y defnydd, yn ein calonnau a'n meddyliau. Yn y siopau ar bob stryd bach Cymreig, mae'r cynnyrch ar werth. Gwisga'r genedl eu cenedlaetholdeb ar grysau, fathodynau neu fwclis.

A'r cyfan yn ddim ond patrwm del, lliw gwaed.

3.

'Rhoi ffens o'i gwmpas o 'lly?'

'Wel ia!'

'Ti'n gall dwa?'

'Wel yndw!'

'I be?'

'I gadw fo'n saff 'de ... o'r fandals 'ma.'

'Ein job ni 'di hynna.'

'Yn union!'

'Naci, ti'm yn dalld ... Ni greodd nhw.'

'Be?'

'Naci, dim 'be', 'pwy'. Y nhw ... y ni. Y fandals.'

'E?'

'Ein bai ni ydi o. Fedran ni'm ei warchod o rhag ni'n hunain. Ma' raid i ni newid petha, ond dim dyma sut ma' gneud hynny.'

'Da chi'n gall?'

'Yndw. Ni sydd angen newid a ni sy'n ei warchod o, gan ddechrau trwy ddysgu'r gwahaniaeth rhwng craig a wal. A dim trwy godi blincin ffensys.'

10 RHIFYN O'R STAMP

adlewyrchiad

ANGHARAD PRICE

Ers cyhoeddi rhifyn cyntaf Y Stamp dros dair blynedd yn ôl, mae'r cylchgrawn wedi trawsnewid tirwedd y byd llenyddol yng Nghymru. Trwy ei rifynnau print, ei wefan, ei bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, ei gyhoeddiadau barddonol, a'i lu o ddigwyddiadau, mae wedi darparu ac ysbrydoli gweithgarwch llenyddol a chelfyddydol sy'n ffres, arloesol a chynhyrfus. Diolch i Y Stamp, i raddau helaeth, y mae hwn yn un o'r cyfnodau mwyaf creadigol a byrlymus o ran cyhoeddi yn y Gymraeg.

Testun llawenydd ydi bod y degfed rhifyn bellach wedi'i gyhoeddi, a bod yr holl weithgarwch trwy gyfryngau eraill yn parhau – hyd yn oed yn wyneb pandemig.

Yn sicr, mae Y Stamp yn rhan o ddatblygiad ehangach yn y byd cyhoeddi'n fyd-eang, lle mae gweisg bychain, annibynnol yn cael eu sefydlu – ac yn ffynnu – yn wyneb arafwch a cheidwadaeth y gweisg mawr sy'n rhoi bri cynyddol ar blesio'r farchnad yn unig. Dydi'r sefyllfa ddim yn union yr un fath yng Nghymru ag yn y byd Eingl-Americanaidd, wrth reswm, ond mae Y Stamp yn rhannu'r un nodweddion â'r mwyaf cyffrous o'r gweisg hyn o safbwynt mentergarwch, hyblygrwydd, parodrwydd i groesawu ffurfiau, dulliau a lleisiau newydd gan hybu croesbeillio rhwng celfyddydau, yn ogystal â chwimder wrth ymateb i faterion y byd sydd ohoni.

Mae technoleg cyhoeddi, hysbysu, cydgysylltu yn rhan ganolog o hynny – mae datblygiadau wrth ledaenu'r gair ysgrifenedig, byth ers cyfnod Gutenberg, wedi arwain at chwyldro mewn gweithgarwch llenyddol, ac wedi hybu ffurfiau a dulliau newydd o ysgrifennu. Ond mae angen mwy na thechnoleg yn unig i sicrhau'r fath ddylanwad: mae llwyddiant Y Stamp yn ganlyniad i weledigaeth criw ymroddedig o unigolion, eu llafur diflino, eu hegni a'u holl amser. Trwy feddiannu'i ddulliau cynhyrchu ei hun, a bod yn annibynnol ar gyrff ariannu cyhoeddus, mae Y Stamp wedi gallu gwneud ei farc o'r cychwyn cyntaf, a chynhyrfu dyfroedd a oedd wedi mynd yn rhy dawel o'r hanner.

Yn wir, mae wedi gosod yr agenda i weddill cyhoeddwy'r Cymru. Ymhlith pethau eraill, mae wedi dangos, er enghraifft, nid ei bod yn bryd rhoi'r gorau i gyhoeddi ar bapur, ond ei bod yn bryd rhoi'r gorau i gyhoeddi ar bapur yn unig. Mae wedi defnyddio holl botensial creadigol technoleg wrth ymdrin â gwedd weledol a chlywedol llenyddiaeth ac felly wedi ysbrydoli dulliau newydd o greu. Mae wedi manteisio ar gyflymder technoleg ddigidol i feithrin ac annog lleisiau newydd, amrywiol, ac wedi elwa ar benrhyddid y dechnoleg i greu cymuned agored o ddarllenwyr ac artistiaid sy'n croesi pob math o ffiniau. Ac mae'r bwrlwm a'r creadigrwydd hwn yn ei dro yn maethu'r sîn lenyddol Gymraeg yn ei chyfanrwydd.

Diolch i'r golygyddion, a'r holl gyfranwyr, am yr hyn a gyflawnwyd eisoes, a gobeithio y bydd Y Stamp yn parhau i hybu, ysbrydoli – a chynhyrfu – am flynyddoedd lawer i ddod.



REX JIBIDÛRS

snogio trwy sanau

GEIRIAU: HAMMAD RIND CYFIEITHIAD: EFA EDWARDS

Disgrifiodd Menna Elfyn y profiad o ddarllen cerdd mewn cyfieithiad fel cael 'cusan trwy hances'. Wel, hoffem ni yn y Stamp weld cyfeillachu a swsio lot amlach yn digwydd rhwng 'dwy' lenyddiaeth Cymru, felly dyma herio llenorion Cymraeg eu hiaith i geisio mynd ati i gynhyrchu cyfieithiadau o waith llenorion cyfoes sy'n ysgrifennu yn y Saesneg, gan archwilio'r berthynas rhwng llenyddiaeth y ddwy iaith, tra'n arbrofi efo'r gelfyddyd o gyfieithu.

Yn y rhifyn hwn, ysgrif o waith Hammad Rind sydd wedi ei chyfieithu gan Efa Edwards. Dyma rannu cyfieithiad Efa, yna holi rhai cwestiynau i Hammad am y gwaith. Y mae ysgrif yn trafod profiad Efa o gyfieithu'r darn i'w gweld ar ein gwefan.



Rex jibidûrs

Roeddwn i'n bymtheg oed y tro cyntaf i fi ymweld â sinema'r Rex, a hynny yng nghwmni rhai o'm ffrindiau o'r coleg bechgyn, Cordoba College. Efallai byddai swyddogion diogelwch yn eiriau mwy addas na chwmni, gan mai fi oedd yr ifancaf yn y grŵp, ac roedd Cordoba College yn ddrwg-enwog am ei arferion disgyblu llym, ac yr un mor boblogaidd gyda rhieni am yr un rheswm. Dyna oedd y tro cyntaf i fi ymweld ag unrhyw sinema, ond roedd fy ffrindiau eraill yn fwy profiadol na finau. Roedd hon yn wobwr foethus am oroesi cyfnod hir, sych o sefyll arholiadau. *The Mummy* oedd y ffilm, wedi'i leoli yn yr Aifft cyn chwyldro 1952, a Rachel Weisz oedd yn serennu ynddi. Syrthiais dros fy mhen a 'nghlustiau mewn cariad â hi yn syth. Roedd cymeriadau eraill yn y ffilm hefyd, ond doeddwn i ddim yn poeni hanner cymaint amdany'n nhw. Roedd y ffaith fod rhai o'r cymeriadau anghofiadwy hyn yn siarad gydag acen Americanaidd wedi syrthio ar fy nghlustiau'n ofer, gan fod y ffilm wedi'i throsleisio i'r Hindi.

Yn y dyddiau hynny, y dim-dimau cynnar, doedd dim hawl gan sinemâu Pacistan ddangos ffilmiau o India. Yn amlwg, doedd y rheol hon ddim yn berthnasol i ffilmiau Hollywood, oedd yn cael eu mewnfario drwy India fel arfer ar ôl cael eu trosleisio i'r Hindi. Efallai bod perchnogion sinemâu ewn wedi llwyddo i lwgrwobrwyo'r bobl iawn i gael yr hawl i dafluio'r ffilmiau tramor ar eu sgriniau. Wedi'r cyfan, roedd Hindi, sy'n debyg i Urdu, yn denu mwy o gwsmeriaid nag ieithoedd 'firangi' ('Ffranceg' neu 'orllewinol'). Nid troslais Hindi oedd yr unig gyfraniad a wnaeth Bollywood i'r ffilmiau Hollywood roedd y Rex yn eu dangos. Yn hytrach na rhoi rhagflas o ffilmiau eraill cyn y ffilm, roedd pedair cân Hindi o'r ffilmiau Bollywood diweddaraf yn cael eu dangos, heb ddim i'w wneud â stori neu thema'r ffilm fel arfer, ac a ddewiswyd yn benodol am eu naws awgrymog a'u dawnsio nwydus. Yr enw am y rhain oedd 'geet mala' neu 'garlant o ganeuon' neu 'ganeuon eitem' yng ngeirfa Bollywood.

Roedd rhes boenus o hir o bobl yn aros wrth y swyddfa docynnau ac, erbyn i ni lwyddo i fynd i mewn i'r neuadd gyda'n tocynnau bach llwyd o'r diwedd, roedd y sgrin yn llawn caneuon eitem yn barod. Cefais fy llorio'n syth gan ehangder enfawr neuadd y sinema. Tynnodd fy ffrind, V, sigarét Camel (yr oedd e'n ei alw'n ei enw Lahnda llafar, Dachi) o'i boced yn ddramatig, gan fynnu ei fod e ond yn smygu mewn neuaddau sinema. 'Mae gan sinemâu eu rheolau eu hunain,' esboniodd. 'Yma, galli di ymestyn dy goesau, tynnu dy sgidiau a dy sanau, neu hyd yn oed orffwys dy draed ar gefn y gadair o dy flaen.' Dangosodd i fi sut i wneud hynny cyn tynnu ei draed i lawr â'i gynffon rhwng ei goesau pan drodd y dyn cyhyrog o'i flaen ato'n gwgu.

Daeth y sinema yn afal drwg i fi. Cyn pen dim, roeddwn yn gaeth i'w hud, ac yn ymwelydd cyson – ond soniais i fyth wrth fy rhieni am hyn. Mewn teuluoedd traddodiadol, roedd ymdeimlad rhyfedd o fudreddi yn gysylltiedig â'r

sinema. Roedd fel petai eich llygaid yn cael eu heintio cyn gynted ag yr oedden nhw'n dod i gysylltiad â'r sgrin ddisglair. Pan ddatgelwyd fy nghyfrinach i fy mrawd un dydd (a neb i'w feio ond fi a fy ngheg fawr), llwyddais i'w berswadio i ddod gyda fi i ddangosiad cyntaf y ffilm James Bond newydd, i'w lusgo i fod yn rhan o fy nhrosedd a sicrhau bod fy ymweliadau cudd yn parhau.

Ni allai unrhyw beth darfu ar fy nghariad – nid addurniadau taci neuadd y sinema, na'i chadeiriau anghyfforddus gyda chefn pren caled a seddi gyda'u defnydd rhacs, nac ychwaith y gwylwyr fyddai'n talu ugain rupee am docyn i chwyrnu mewn neuadd wedi'i hawyru am ychydig oriau, na hyd yn oed safon isel y samosa-chaat a werthwyd gan blant yn ystod yr egwyl. Bob dydd Gwener, byddwn yn mitshio fy nosbarth tiwtora i fynd i'r dangosiad prynhawn, ni waeth beth oedd y ffilm, ac roedd yn gorffen mewn pryd ar gyfer gweddiau cynulleidfaol dydd Gwener.

Ar flaen y sinema roedd posterï anferth ar gyfer y ffilmiau diweddaraf, ac roedd polion trydan penodol trwy gydol y ddinas yn cael eu haddurno â hysbysebion llai ar gyfer yr un ffilmiau. Roedd rhannau o'r posterï hyn, sef clun neu fotwm bol fel arfer, wedi'u taenu â phaent du i adael i'r dychymyg ddyfalu beth oedd yn llechu y tu ôl iddo, yn enwedig ar gyfer y ffilmiau soft-core. Roedd ffilmiau o'r fath yn cael eu hysbysebu gyda dau deitl – y teitl gwreiddiol wedi'i gysylltu â dywediad Urdu amherthnasol gydag urf neu 'aka'. Un o'r teitlau sydd wedi aros yn fy nghof hyd heddiw yw Shikma aka *Two Lusty Monkeys*.

Rex oedd fy sinema anwylaf hyd yn oed ar ôl i fi symud i Lahore a dechrau mynd i'r sinemâu lleol yno. Roedd prisiau'r tocynnau chwe gwaith yn uwch yn y ddinas fawr, ac roedd y ffilmiau'n cael eu dangos yn eu hieithoedd gwreiddiol, heb eu trosleisio i'r Hindi, a doedd dim caneuon eitem anghyfreithlon yn cael eu chwarae cyn y ffilm. Serch hynny, roedd y seddi'n fwy cyfforddus ac roedd popcorn ar gael yn y stondinau, yn ogystal â hufen iâ. Ond doedd pethau ddim yr un fath. Roedd rhywbeth ar goll yn y peli o hufen iâ fanila a'r seddi melfed cyfforddus. Bob tro y byddwn yn dychwelyd i Lahnda, roeddwn yn ymdrechu i fynd ar yr un hen bererindod i Rex. Sylwais fod llai a llai o bobl yn chwyrnu yn ystod y sioe, a bod safon y samosa-chaat wedi gwella. Efallai mai'r arwyddion hyn roddodd y teimlad i fi fod pethau ar fin dod i ben. Rai blynyddoedd yn ôl, yn ystod ymweliad yn ôl i'r Dwyrain, dywedodd rhywun wrtha i fod Rex wedi'i adnewyddu'n neuadd briodasau. *Sic transit gloria mundi!*

Holi Hammad Rind

Beth ysbrydolodd y darn hwn?

Darn hunangofiannol ydi o'n bennaf, sy'n adlewyrchu fy nghariad at y sinema. Yn fwy penodol, cefais fy ysbrydoli i'w ysgrifennu ar ôl ail-wyllo *Cinema Paradiso* gan Giuseppe Tornatore.

Beth yw dy ddylanwadau llenyddol?

Mae gen i ddiddordeb mawr mewn llên gwerin a thraddodiadau storïo llafar ar draws y byd. Dwi'n edmygu gwaith Italo Calvino, Angela Carter a gwaith llawer o lenorion Persaidd ar Urdu, fel Abutorab Khosravi ac Intizar Hussain, sydd ddim yn adnabyddus yn y gorllewin.

Wyt ti'n dal i garu'r sinema? Oes gen ti unrhyw awgrymiadau ffilm diddorol?

Oes, mae gen i gariad mawr at y sinema. Dwi'n ffan mawr o sinema Iran. Dwi wastad yn cael fy nharo gan rym creadigol gwneuthurwyr ffilm Iraniaidd cyfoes, sy'n cynhyrchu campweithiau yn ddiflino, er gwaetha y cyfyngiadau sensoraidd sydd arnynt. Mae 'na gymaint ohonyn nhw, ond mi fyddwn i'n awgrymu gwaith Abbas Kiarostami, Majid Majidi a Bahram Beyzai yn arbennig. Dwi hefyd wedi fy nghyfareddu gan ffilmiau y 'Czech New Wave'.

Gol: Mae ysgrif yn trafod y broses o gyfieithu gan Efa i'w gweld ar wefan Y Stamp.

MACHLUD

Pan glywsom adlais
ein llawenydd glân
yn tanio dros y chwarel,
yn cymuno â
chân y
fwyalchen --
 yn chwedl
i gyd,
clywsom hefyd

am guriad

chwilfrydedd ein
mebyd yn ateb,
 mae synau
yn lefydd hefyd

Ni wn i ba le
gwasgerir atgof,
ond o'r
echel hon
cawn wyllo
lleuad gwyn
y calan yn llusgo'r
dydd dros grib
y Foel
 a llygaid Mai

trwm eu gorffwys,

meddw ar y gwyll,
yn deall
yn dawel

 y ddawns
fyrhoedlog
hon

TRADDODIAD DAFOD

Mae 'na fwy i hyn
na chynghanedd
dlos
ar glust
gul,
Tir a môr a môr a thir
yn frethyn cynhenid,
Magwraeth yn efelychu
cof-golofnau
cydryw

er gwaethaf
y cloddio

Dŵr yr Wnion yw
dŵr Tiger Bay yw
dŵr Capel Celyn,

Eu llif a thrai yn
ieithoedd tyfn
eu hunain

Ac wedi'r holl ddidoli
lawr i ddim ond
gweddillion a
gwreiddiau,
cawn gyd-ddylunio
delweddau ein
dadeni
ym mhair ein dyfodolion

Calon hynafol sydd
ynom yn cysgu
ynom yn aros

am gyfrwng newydd
i fynegi

PAM NAWR?

datganiad

UNDEB GWRTH HILIAETH CELFYDDYDAU CYMRU (WAARU)

Ganwyd mudiad Black Lives Matter saith mlynedd yn ôl, ond mae'r cynnydd enfawr yn y gefnogaeth iddo yn dilyn llofruddiaeth George Floyd yn beth newydd. Os oes mwy o elfen o frys y tro hwn, mae hynny oherwydd fod yna frys. Wrth fynychu protestiadau a bod yn dyst i'r mudiad ar lein, gwelwn fod sefydliadau ac unigolion pwysig nid yn unig yn uwchleuo gwreiddiau'r anghyfiawnderau hyn, ond hefyd yn gwrando ar y mesurau a'r datrysiadau sydd wedi'u cynnig gan Bobl Ddu ac yn deall yr angen i roi'r pethau hyn ar waith.

O'r diwedd, rydym yn dechrau cynnal y sgysiau cywir am orthrwm systematig ym mhrif ffrwd y cyfryngau; mae'n hen bryd i hyn gael ei adlewyrchu hefyd yn sector y celfyddydau yng Nghymru.

Er ein bod yn ddiolchgar i'r sawl sydd wedi ein rhagflaenu ac wedi brwydro'n galed i gyflawni'r hyn sydd gennym yn awr, mae'n dod yn glir ein bod bellach yn rhy gysurus ac wedi setlo am lai na chyfartaledd llwyr, ac wedi gwneud y tro gyda rhy ychydig. Wrth i ni ddeffro gyda'n gilydd ac wrth i'r byd ddeall cyfiawnder mewn ffordd newydd, ni fydd 'Cynnal amrywiaeth a bod yn Gynhwysol' yn ddigon. Rydym yn mynnu dim llai na chyfartaledd gwirioneddol a hirhoedlog ac os ydych chi, fel sector sy'n cynnwys unigolion a sefydliadau sy'n meddu ar faint sylweddol, yn credu eich bod yn gynghreiriaid i'r achos hwn, mae'n hollbwysig eich bod yn gwrando ac yn ymarfer eich cefnogaeth yn y ffyrdd sy'n cael eu gofyn gennych gan y sawl yr ydych wedi elwa ar eu gorthrwm tan nawr.

Wrth edrych tuag at i mewn, gan ystyried y cyd-destun ehangach, mae wedi peri gofid ofnadwy i ni i weld sut y mae'r Sector Celf yng Nghymru yn dewis ymateb ar hyn o bryd: addewidion gwag yn eu cynlluniau strategol, hashnodau, ymrwymo i symiau sarhaus o bitw a datganiadau powld ynglŷn ag ymdynghedu i fod yn gynhwysol, wedi ei gribinio at ei gilydd gan yr orielau / amgueddfeydd / sefydliadau hynny y mae'n wybyddus eu bod yn anwybyddu gwaith artistiaid Du.

Rydym yn ymwybodol o'r cyfan oll.

Llywiwyd 20 mlynedd diwethaf y sector hwn gan ymgynghoriadau dirifedi yn ymwneud â chynnal amrywiaeth a chan strategaethau dros sawl blwyddyn sydd wedi ceisio 'trwsio'r' broblem o ddiffyg cynwysoldeb. Caiff yr holl waith hyn ei wneud mwy na heb gan bobl wyn, nad ydynt fyth yn cwestiynu sut y mae eu safle yn rhwystr i weld beth yn union sydd angen ei newid.

Byddai parhau i adael i sefydliadau weithio yn y modd hwn heb atebolrwydd ystyrllon yn parhau i wthio Pobl Ddu i'r cyrion ac i gadarnhau eu gorthrymu yn y gymdeithas ehangach. Ni fyddwn bellach yn derbyn arwyddion symbolaidd ar gyfer newid, ac ni ddylech chithau chwaith.

Nid ydym yn ofni dweud hyn yn blaen ac yn agored bellach:

Er gwaetha'r wleidyddiaeth ryddfrydol sy'n cael ei phedlera gan sawl un sy'n gweithio o fewn y celfyddydau, y bobl wyn a'r grym maen nhw'n ei rannu o fewn eu cylchoedd eu hunain sydd ar fai am y gormes a brofir yn feunyddiol gan Bobl Ddu a lleiafrifoedd ethnig eraill.

Dylai fod yn afraid dweud mai eich llafur chi yw hwn yn gymaint ag ydyw'n llafur i ninnau. Ni fyddwn yn diolch i chi am gydnabod bod angen i chi wneud rhagor — rydym yn gofyn i chi i gamu i'r naill ochr, talu'n iawn am yr anghydbwysedd grym sydd wedi bod yn sail i'r sefyllfa hyll yr ydym yn canfod ein hunain ynddi, a rhoi'r arfau i ni i wneud yr hyn sydd ei angen, yn awr.

Ni fyddwn yn derbyn ymddiheuriadau moel — mae'n rhaid iddyn nhw ddod law yn llaw gyda symud parhaus o ran eich gweithredoedd. Rydym yn galw am y math o gyfiawnder a fydd yn dadleoli'r synnwyr o gyfforddusrwydd a diogelwch yr ydych wedi dod yn gyfarwydd ag ef. Rydym yn galw am gyfiawnder trawsnewidiol, sy'n dechrau drwy gydnabod y ffaith fod gweithwyr gwyn o fewn sector y celfyddydau yn hyrwyddo artistiaid gwyn wrth danbriso ar yr un pryd waith eu cyfatebwyr a'u cydweithwyr Du. Caiff ymagweddu systemig megis yr hyn a amlygwyd o fewn y Sector Celf yng Nghymru drwy gynnig swyddi sy'n talu'n well, dyrchafiadau, nepotistiaeth, cyfleoedd diwydiant i bobl wyn ac yn eu plith. O ganlyniad, mae'n rhaid i unrhyw brosesau sy'n ceisio cywiro mewn modd ystyrllon y problemau hyn sydd wedi eu plannu'n ddwfn yn ein sefydliadau, orfod cynnwys gweithredoedd go iawn er mwyn ailgyfeirio anghydbwysedd grym.

Bydd y gwaith hwn yn waith hirdymor, a bydd yn digwydd ar ein telerau ni yn unig. Am y tro rydym yn galw ar Bobl Dduon a Phobl o liw i gysylltu â ni'n gyntaf drwy welshantsantiracistunion@gmail.com

Yn ogystal yr ydym yn gofyn i unrhyw un sydd â chysylltiad gyda'r celfyddydau i'n dilyn ni ar @theWaarU ar twitter ac ig er mwyn gallu clywed mwy oddi wrthym.

THEATR GEN ETO

Cynyrchiadau'r
Gorffennol
ar Sgrin

Past Productions
on Screen

Ewch i theatr.cymru/theatr-gen-eto i weld
pa gynyrchiadau sydd ar gael i'w gwyllo

#TheatrGenEto

Gwyllion

Ffuglen wyddonol a ffantasi Cymru

Rhifyn 1 ar gael o
1 Medi 2020

●● @Gwyllionmag
www.gwyllionmagazine.com



FFAITH DDIFYR:

Wyddoch chi ei
bod hi' n
orfodol i
feurynod gael
tatw ar eu cefn,
er mwyn hwyluso
adnabod y corff
pe tasai
beirniadaeth yr
englyn ar y pryd
yn mynd o
chwith.

Geiriau' r
Gododdin sydd
gan Ceri Wyn
Jones. Llun o
Sali Mali mewn
sodla a sana
penglin sydd gan
Tudur Dylan
Jones. Geiriau
'God Save the
Queen' oedd gan
Gerald. Da de!

*Celwydd noeth yw pob gair o'r
uchod. Nid yw'r Stamp yn derbyn
unrhyw gyfrifoldeb am ddewisiadau
tats ffans y talwrn a'r ymryson yn
sgil yr wybodaeth ffals hon.*

CAETHWASIAETH GOPR

cartrefi cymru

GARETH EVANS-JONES

Ar gyrion tref Amlwch, Ynys Môn, saif mynydd hynod iawn yr olwg, lle 'mae cyfoeth y graig yn gryfach na'r grug', chwedl y diweddar Sian Owen yn ei nofel *Mân Esgyrn*. Mae'n fynydd nodedig, arallfydol ei ymddangosiad, a chyfoethog ei hanes, gan y bu cenedlaethau o bobl yn gweithio ar y mynydd, yn cloddio am gopor, ac yn llenwi coffrau masnachwyr cefnog. Ceid pobl o bob oed yn gweithio yno, o lanciau ifanc i wŷr oeddrannus, a'r Copor Ladis, y merched a weithiai'n ddiwyd i gefnogi'r gwaith cloddio. Mae hanes y gwaith copor yn y mynydd o'i ddechrau i'w ddiwedd yn un hynod drawiadol, ond efallai mai'r hyn sydd hyd yn oed yn fwy trawiadol, ac yn llai enwog am y mynydd, yw'r ffaith fod yna gysylltiad cryf rhwng gwaith copor Amlwch a'r gaethfasnach drawsatlantig.

Gwelir y cysylltiad hwn yn arbennig yng ngyrfa un o reolwyr amlycaf y mynydd, sef Thomas Williams o Lansadwrn, Ynys Môn (1737-1802). Cyfreithiwr wrth ei alwedigaeth ydoedd Williams a'i achos cyntaf oedd gydag Edward Hughes ym 1774, wrth iddynt geisio datrys dadl ynghylch ffiniau tiroedd Parys a Mona. Dyma oedd dechrau perthynas Williams â Mynydd Parys ac esgorodd gwaith cyfreithiol Williams ar ffurfio gweithfeydd copor Cwmni Cloddio Mynydd Parys ym 1774. Gyda threigl y blynyddoedd, tyfodd grym a dylanwad Williams yn arw a daeth mwynglawdd Mona i'w feddiant. Rhwng 1787 a 1792, datblygodd ei ddylanwad i'r fath raddau nes yr oedd ganddo reolaeth ar weithfeydd copor Ynys Môn a Chernyw. Nid yw'n syndod felly i Thomas ennill yr enw, 'Y Brenin Copor', oherwydd ei ddylanwad, ei fenter a'i uchelgais.

Codwyd gweithfeydd yn Sir y Fflint hefyd er mwyn cynhyrchu copor a phres, ac adeiladwyd gweithfeydd copor ym Mhenclawdd, Abertawe, i'r un diben.

Yn ddiddorol ddigon, ac yn drawiadol, defnyddiwyd amryw o'r deunyddiau a gynhyrchid yn y lleoedd hyn yn y gaethfasnach drawsatlantig. Yn wir, buddsoddodd Williams £70,000 yn y gaethfasnach, ac ym 1788, lleisiodd ei wrthwynebiad i fil a oedd dan sylw'r llywodraeth a fuasai'n gwahardd llongau Prydeinig rhag cario caethion. Yn ôl y ddeiseb a gyflwynodd i'r Senedd ym mis Gorffennaf 1788, dadleuodd:

A petition by Thomas Williams Esquire, on behalf of himself and his co partners in the manufacture of Brass Battery, and other Copper, Brass and Mixed Goods, for the African Trade at Holywell in the county of Flint, Penclawdd in the county of Glamorgan, and Temple Mill in the county of Berks ... setting forth, that the Petitioner and his Co-partners have laid out a capital of £70,000 and upwards to establish themselves in the aforesaid manufactories, which are entirely for the African market ... and the Petitioner has lately been informed that a Bill is now depending in the House, for the purpose of regulating for a limited time, the shipping and carrying of slaves in British vessels from the coast of Africa, which ... will greatly hurt, if entirely ruin, the British trade to Africa in the manufactories aforesaid, whereby the Petitioner and his partners would lose the greatest part of the aforesaid Capital.

Fel y gwelir uwchod, diwedd y gân oedd y geiniog, ac roedd cyfoeth yn bwysicach na hawliau caethion. Yr hyn a ddadleuai Williams a'i debyg oedd bod y gaethfasnach yn system mor annatod yn y byd masnachol ar y pryd fel mai peth naturiol ydoedd ei chynnal.

Gan hynny, defnyddiwyd y copor er mwyn masnachu ag Affricaniaid. Defnyddiwyd copor hefyd i leinio cyrff llongau er mwyn eu cadw'n gryf ac ar gyfer cerwynnau mawr berwedig y Caribi a ddefnyddid i grisialu siwgr. Fel y dywed Chris Evans, 'Welsh copper was, quite literally, holding together the naval force that guaranteed security for slave traders and slave-holders in Britain's Atlantic empire.'

Buddsoddwyd yr elw a wnaeth Thomas Williams a'i bartneriaid o'r gaethfasnach mewn gwaith adeiladu a bancio. Manteisiodd Amlwch – a Threffynnon – yn economaidd o gyfrannu i'r gaethfasnach yn Lerpwl, ac roedd y bobl gyffredin yn y ddwy dref yn tueddu i gefnogi'r fenter. A bu newidiadau nodedig o'r herwydd. Er enghraifft, cyn y ffyniant gopor yn Amlwch, roedd poblogaeth y dref yn llai na 500, ond wedi'r digwyddiad hwnnw, tyfodd y boblogaeth i oddeutu 8,000.



Yn ddiau, gwnaeth ‘Y Brenin Copr’ ei farc mewn sawl maes yn ystod ei oes. Er iddo helpu tref Amlwch a lleoedd eraill drwy sicrhau gwaith a sefyllfa economaidd well na’r gorffennol, roedd ei sylw wedi’i hoelio ar gynnydd a buddiannau penodol. Rhaid oedd buddsoddi yn y gaethfasnach er mwyn elwa a pharhau i wneud hynny er mwyn llenwi coffrau amrywiol. Drachefn, roedd y geiniog gopor yn bwysicach nag einioes y caethwas.

Bu farw Williams ym 1802 – union bum mlynedd cyn y buasai llywodraeth Prydain yn pasio Deddf Caethfasnach 1807, un a waharddai masnachu mewn caethion yn yr Ymerodraeth Brydeinig. Nid oedd y ddeddf yn gwahardd bod yn berchen ar gaethion, ond yn gwahardd masnachu mewn ‘eiddo dynol’. Diddorol yw gweld i’r ddeddf hon gael ei phasio o fewn ugain mlynedd i’r pryd y buddsoddodd Williams yn wreiddiol y fath gyfoeth yn y gaethfasnach drawsatlantig. Yn wir, roedd pethau’n araf newid ac o fewn deng mlynedd ar hugain arall, ym 1833, byddai Prydain yn gwahardd caethwasiaeth yn ei Hymerodraeth.

Difyr yw gweld felly fod gan Williams a Mynydd Parys rannau arwyddocaol yng nghynhaliaeth y gaethfasnach drawsatlantig ond mai dros dro fyddai eu buddiannau, oherwydd gyda throad y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd mwy o bwyso ar y llywodraeth i ymateb i’r gaethfasnach a chaethwasiaeth. Canlyniad hynny oedd y ddwy ddeddf a nodwyd uchod. Diddorol hefyd yw sylwi i lwyddiant y Mynydd araf edwino gyda throad y ganrif ac i’w ddiwydiant graddol nychu am amrywiol resymau, gan gynnwys diwydiannu amgenach ac amodau gwaith anffafriol.

Darllen pellach:

Chris Evans, *Slave Wales[:] The Welsh and Atlantic Slavery 1660-1850* (Cardiff: University of Wales Press, 2010).

Catherine Hall, Nicholas Draper, Keith McClelland, *Emancipation and the remaking of the British Imperial World* (Manchester: Manchester University Press, 2014).

J. Richard Williams, *Mynydd Parys[:] ‘Lle bendith? – Lle mellith Môn’* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch 2011).

HUNANIAETH DDIWYLLIANNOL DRWY DECSTILIAU

ffotograffiaeth

MELISSA RODRIGUES


Defnyddia Melissa Rodrigues amrywiaeth o ddeunyddiau yn ei gwaith er mwyn archwilio materion yn ymwneud â dadleoli, perthyn, a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'n archwilio'r elfennau sydd ynghlwm â mudo pobloedd dros y byd.

I Rodrigues, mae mewnfudo yn golygu mwy na chyfreithiau, rheolau, a biwrocratiaeth; iddi hi, mae ymwybyddiaeth o, ac ymrwymiad i gynnal cyfartaledd, gonestrwydd ac amrywiaeth yn ganolog i'r cysyniad o fewnfudo.


Mae gwaith Rodrigues wedi datblygu drwy osod hunaniaeth ddiwylliannol fel canolbwynt i'w hystyriaeth. Mae'n bwriadu archwilio ac ymchwilio i ddisgynyddion Africanaidd sydd, yn debyg i hithau, wedi eu geni neu eu magu tu allan i Affrica ac felly yn meddu ar ddiwylliant cymysg, ond efallai ddim yn cydnabod hanes eu cyndeidiau oherwydd diffyg ymchwil cyffredinol i ddiwylliant Affricanaidd hynafol.


Ceisia Rodrigues ddeall effeithiau yr 'hanes coll' hwn ar fywydau pobl.

Yn ddiweddar, mae elfen newydd wedi ymddangos yng ngwaith Rodrigues. Wrth ystyried fod tecstilau yn chwarae rhan bwysig mewn casglebiaeth a hunaniaeth gasglebig, mae Rodrigues wedi bod yn archwilio ac yn ymchwilio i'r darnau hyn o ddefnydd a'u llwybrau drwy amser a hanes, gan ystyried eu pwysigrwydd yn ein dealltwriaeth o'r 'hunan' fel rhan o grwpiau cymdeithasol, a'r camdybiaethau sy'n bodoli am y tecstilau a'r defnyddiau hyn.









poster
RADHA PATEL 'YN Y DYFODOL, BYDD CYMRU'N ENWOG AM...

SUPERSEXYPONY

darlun mewn deg

CARLOTA NOBREGA



Rhoddwyd her i Carlota wneud darn o gelf mewn 10 munud, a'r ebol ffalig hwn oedd y darn hwnnw. Awydd rhoi tro arni eich hun? Bachwch ffelt tips, clai, twb o sos coch, neu gyfrwng celf arall o'ch dewis; gosodwch 10 munud ar y teimar, a gawn ni weld be fyddwch chi di greu. Gyrrwch eich ymdrechion atom dros instagram neu ebost.

DAETH EIN DEGFED RHIFYN I'R BYD

A MEDDAI'N DARLLENWYR I GYD




"DEG RHIFYN O'R STAMP?"

WEL DYNA CHI GAMP!

PWY FEDDYLIA SA'N PARA CYHYD?"

Wales Gwobr Young Beirdd Ifanc Poets Cymru Award

Cystadleuaeth farddoniaeth ddwyieithog (Gymraeg a Saesneg) ledled y DU i blant 10-17 oed, dan ofal Poetry Wales.
Beirniad: Eurig Salisbury | Dyddiad cau: 28ain Hydref 2020 | Mwy o wybodaeth: poetrywales.co.uk/beirddifanc



CYHOEDDIADAU'R STAMP - CYHOEDDWR Y LLYFRAU ANNIBYNNOL



Blodeugerdd newydd o farddoniaeth Gymraeg gyfoes.



Enillydd categori barddoniaeth Gwobr Llyfr y Flwyddyn, 2020.



Enillydd gwobr Michael Marks am bamffledi barddoniaeth, 2019.

YSTAMP.CYMRU/BLODEUGERDD 2020 | YSTAMP.CYMRU/LLYFRAU

O'r Pedwar Gwynt



DARLLEN, HOLI, HERIO


£10y flwyddyn yn unig i ddarllen pob dim:

www.pedwargwynt.cymru


O wasg *y Lolfa*



£5.99



£7.99



£14.99



£8.99

Cefnogwch eich siop lyfrau leol



Llyfrau dros Gymru

DIM OND NI SYDD AR ÔL

Stori fer

MEGAN HUNTER

Mae blas rhwd ar y bluen eira ond mae'n debyg mai dychmygu hynny wyt ti.

Rwyt ti'n ei gwyllo hi'n sefyll yno ar iard yr ysgol, yn gwyllo'r gwynt yn trio troi ei hijab yn aderyn. Mae'r ddaear yn wlyb a'r eira heb ddechrau glynu eto, ond gelli di ddychmygu – gelli di ddychmygu trwch ohono ar y tarmac; byddai sŵn dy gamau wrth i'r eira sugno dy sgidiau'n dy gario, am eiliad, yn bellach o'r tân sydd wedi dymchwel y gorwel y tu ôl i ti.

Mae pluen arall yn toddi ar dy wefus (ai blas lludw sydd arni'r tro hwn?) ac rwyt ti'n cuddio dy ddyrnau ym mhoced dy hwdi leavers cyn nesáu.

Dwyt ti ddim eisiau ei dychryn hi – mae hi'n dal i gario'r reiffl, wedi'r cwbl – felly rwyt ti'n gweiddi ei henw o'r pellter saff hwn. Dydi hi ddim yn troi i'th wynebu. Mewn gwirionedd, dydi hi ddim yn edrych fel petai hi'n symud o gwbl, nid er mwyn anadlu hyd yn oed; mae fel petai hi wedi tyfu o'r tarmac, yn dynwared y gwair sy'n crafangu trwy'r craciau o'i chwmpas.

Dwyt ti ddim yn yngan ei henw eto nes i ti fod yn ddigon agos i weld yr esgid sy'n gorwedd ar y tarmac o'i blaen: bwt Doc Martens melyn. Mae lluniau o wenyn yn gorchuddio defnydd yr esgid ac mae pob un yn gwenu arnat.

Rwyt ti'n camu'n nes, ac yn nes; mae diferion o waed wedi sychu ar flaen yr esgid. Rwyt ti'n ystyried penlinio a phlicio'r gwaed ymaith ond yn penderfynu peidio – efallai y byddai'n amhosib sgwrio'r cochni o'th groen wedi iddo dreiddio o dan dy ewinedd. Felly yn hytrach na gwneud hynny rwyt ti'n troi tuag ati heb edrych ar ei hwyneb – rwyt ti'n ofni beth weli di yno ond yn trio dweud wrthyti di dy hun nad ofni wyt ti ond parchu, ei pharchu hi wrth i geudwll lletach na gorwel y tân y tu ôl i chi agor yn y bywyd o'i blaen.

Yna rwyt ti'n gafael ym mol y reiffl er mwyn ei dynnu o'i dwylo, yn symud un llaw ac yna'r llall yn bwylllog fel petai ti'n sgrolio trwy ddyfnder cyfrif Instagram dieithryn ac yn ofni pwyso'r botwm *like* mewn camgymeriad. Rwyt ti'n sylweddoli fod ei dwylo hi'n oerach na dy rai di ac am eiliad rwyt ti'n ysu am yr hyder i afael ynddyn nhw i drïo'u cynhesu.

Rwyt ti'n cyrcydu er mwyn gosod y reiffl ar y ddaear yn ofalus. Mae hi'n dy ddilyn i'r llawr cyn i ti ryddhau dy ddwylo o'r metel, tu blaen y reiffl yn pwyntio i'r chwith at fin gorlawn; mae'r ceg plastig wedi poeri paced gwag o greision Monster Munch a bocs polysterene at y tarmac.

Wrth i ti osod dy ddwylo yn ôl ym mhoced yr hwdi, rwyt ti'n troi rhywfaint i'w gwyllo hi'n datod careiau oren llachar – oren highlighter, meddylia – y treinyr Nike ar ei throed chwith. Rwyt ti'n eithaf sicr ei bod hi wedi gwisgo'r un pâr bob dydd ers bron i ddwy flynedd. Mae hi'n gosod ei llaw dde ar y ddaear i ddal ei chydbwysedd wrth godi ei throed chwith i dynnu'r esgid – mae'n amlwg nad ydi hi eisiau eistedd yn ôl a gwlychu ei throwsus ysgol – ac yn ei daflu dros ei hysgwydd. Rwyt ti'n troi dy ben a bron yn colli dy gydbwysedd dy hun er mwyn dilyn taith yr esgid trwy'r eira. Mae'n disgyn ar y tarmac ac yn neidio unwaith, yna ddwywaith, y careiau'n corddi fel nadroedd.

Pan mae'r esgidiau'n llonydd ar y llawr rwyt ti'n troi'n ôl. Erbyn hyn, mae hi wedi gafael yn y bwt Doc Martens ac yn trio'i gwisgo gydag un llaw ond mae'r ddau ohonoch chi'n gwbl ymwybodol fod yr esgid o leiaf un maint yn rhy fach iddi ac mae hi'n gwingo. Yn gweiddi. Yn sgrechian. Heb wybod pam yn union, rwyt ti'n gafael yn nhafod yr esgid i'w helpu. Mae'r ddau ohonoch yn tynnu a thynnu cyn taro'r tarmac ar eich cefnau. Rwyt ti'n ysgwyd y gro gwlyb o dy wallt ac yn codi dy ben; mae'r esgid yn edrych fel petai'n gwenu arnat o'i choes, yn union fel yr haid o wenyn sy'n llonydd drosti.

(Trosodd)

Rwyt ti'n defnyddio dy ddwylo i godi yn ôl yn dy gwrcwd ac yn sychu'u cledrau ar dy jîns. Heb sylweddoli ar y weithred gan dy fod di'n chwerthin yn ddistaw yn sgil eich damwain, rwyt ti'n troi i'w hwynebu ac yn gweld yr hyn yr ofnaist: mae ei bochau'n sgleinio. Ond dwyt ti ddim yn ei chysuro hi gan nad wyt ti'n gwybod sut i wneud hynny. Dwyt ti ddim yn gafael yn ei garddwn hyd yn oed; gall unrhyw un fod yn eich gwyllo, er mor anhebygol yw hynny erbyn hyn. Felly yr unig beth y gelli di ei wneud yw gobeithio fod ei dagrau'n ddigon cynnes i ddadmer yr ias ar groen ei gruddiau.

PERERIN

ysgrif

GEORGIA RUTH

Nid fel hyn oedd hi, Elsie ...

Punch-line y stori hon ydi hen got ffwr. Miliynau o ffibrau lliw castan, wedi'u pacio'n dynn o amgylch hen gorff fel gwlân dan fondo.

Rwyt ti'n agosáu at wythdeg, a'n paratoi i adael awyren. Wrth bwysu'n urddasol ar fraich dy fab perta', daw gwên y stiwardes i orffwys ar dy wyneb fel gweddi: mor dyner, mor hardd, nes i ti orfod stopio dy hunan rhag syrthio wrth ei thraed, y Madonna ifanc â'r llygaid mawr ... ond rwyt ti'n agosáu at wythdeg, alli di ddim fforddio stopio nawr; mae'r foment yn nesáu. Mae dy fab, efo'r fath dynerwch, yn dy annog di 'mlaen. I gyfeiliant muzac ysgafn rwyt ti'n ymddangos – fel rhyfeddod – yn nrws yr awyren.

Daw gwres yr Eidal i lapio dy wyneb, gan doddi'r powdr trwchus, a pheri i'r chwys rhuthro i'r holltau dan y ffwr. Awyr las anferthol uwch dy ben, yn bygwth dy lyncu am byth. Yna: chwa o darmac a chachu i dy ffroenau, fel incense..

A ti'n gwenu? Yn meddwl mai fel hyn yn union ddylie hi fod? Rwyt ti'n blasu'r diwrnod ar dy dafod, yn chwys domen yn dy ffwr, sy'n gweddu'r achlysur yn berffaith – fyddet ti ddim yn ei thynnu hi nawr tase nhw'n gofyn iti neud. 'Rwyt ti wedi cyrraedd pen y daith. Holl arwresau Fellini wedi'u rollo'n un pecyn blewog gydag acen y Rhondda. Guilietta Masina wedi tyfu'n hen, yn llusgo'n benderfynol trwy'r gwyll efo'r syrcas ... ac i lawr y grisiau.

Mae'n rhaid i ti sylweddoli, Elsie, mai dyma sut fydda i'n dy weld di: yn fach a'n chwilboeth yn nrws awyren sydd newydd lanio yn Rhufain.

Mewn ffwr! Dwi'n hoffi meddwl dy fod wedi penderfynu anrhydeddu'r achlysur efo dy ddilledyn mwya' sbesial. (Dy fod – pam 'mod i mor ffurfiol? Bydde'n well 'da ti tase ni'n siarad Saesneg? Faint o Gymraeg sy'n dal i fyw yndda ti, 'gwed?)

Roeddet ti wedi breuddwydio am fore glas y tu hwnt i strydoedd Ton, a'r cwsmeriaid a'r ysbrydion a'r pyllau. Y foment hon: ar ben y grisiau, efo'r mab mwya' golygus a'r stiwardes â'r wên sanctaidd, a'r cachu. Alli di ddadlau mai jyst un patshyn bach mewn cyfanwaith bywyd oedd e, gwyfyn yn llosgi ar wyneb bwlb poeth, ond fel hyn fydda i'n dy weld di am byth.

Falle fod e 'rioed wedi digwydd.

Dwi ddim hyd yn oed yn cofio pwy ddwedodd y stori wrtha i nawr. Falle mai twannel myglyd oedd y grisiau. Tithe'n hercian fel hen flaid tua'r diwedd. Fy ewythr wedi hen farw.

Nain.

Yr unig dro i ni gyfarfod, ro'n i'n syllu arnat drwy niwloedd fy llygaid-newydd-anedig, ac roedd cataracts 'da ti erbyn

hynny, felly doeddet ti'm yn gweld llawer ond llaeth chwaith!

Yn gronolegol, dwi'n meddwl mai ar ôl yr olygfa efo'r awyren ddaeth hon, ond alla'i ddim bod yn siŵr ... Ac er ein bod ni wedi gweld ein gilydd yn y byd go-iawn, dwi'n dal i feddwl amdanat yn yr Eidal. Maddeua imi. Ma' 'na lun ohonon ni'n cwrdd, gyda llaw. Wyt ti'n cofio? Dwi'n gorwedd yn dy freichiau, a'r ddwy ohonom ni fel dieithriad; tithe'n ddrislyd a finne efo'r wyneb broga-bach 'na sydd gan bob babi newydd (i godi ofn ar eu gelynyon).

Gwell i ni gwrdd fan hyn, dwi'n meddwl: allwn ni fod yn fersiynau gwell, mwy cyffrous, o'n hunain.

Mae 'na ambell olygfa bwysig arall lle rwy'ti'n ymddangos yn glir:

1. Ti, yn dy arddegau, yn gorfod gadael ysgol er mwyn edrych ar ôl dy chwirydd (spoiler: ti'n gwrthod dychwelyd, achos byddai'n well gen ti golli rhywbeth annelwig am byth, na gorfod diodde'r cywilydd o ddarganfod nad ti oedd yr un mwya' disglair rhagor. Yn hyn, o leia', rwy'n gweld fy hun ...)
2. Ti, yn hyderus a hardd tu ôl i gownter dy siop, Gwalia Stores, yn cyfri newid mân yn dy law i'r Iris Williams ifanc: ymhell cyn iddi wneud record gospel yn yr iaith Gymraeg a symud i'r UDA ... Cwpwl o gwestiynau: a oeddet ti'n gwybod yn syth fod ganddi 'natural star quality'? Oeddet ti'n gwybod y byddai hi'n enwog? Beth nes di werthu iddi? S'dim rhaid i ti ateb nawr. Ma' amser 'da ni ...
3. Ac un stori, sy'n ymwneud â lipstic a phâr anferthol o ddrisau pren sy'n arwain o galon y dociau i'r Bristol Channel ac i bendraw'r byd.

Straeon, 'na'i gyd. Pam na alla i weld dy golli di, Elsie? (Sut all rywun alaru am berson doedden nhw'n methu'i gweld?) Pam na alla i deimlo unrhyw beth? Dwi'n gwenu wrth feddwl am y got ffwr a'r chwys, ond ma' hynny'n greulon ... neu'n dyner? Am mai dyna'r oll sy'n bodoli.

Dwi'n cadw'r straeon hyn yn fy ngheg, a'n ymestyn y ffibrau allan fel lastig dros fy nhafod, nes iddyn nhw deneuo... nes iddyn nhw fynd mor bell oddi wrtha'i eu bod nhw'n ddim byd. Wedi eu cnoi'n ddim byd o gwbl.

Mawrth 24ain, 1994: *New York Times*, tud.12

Giulietta Masina, the waiflike actress who became one of Italy's best-known movie stars, died today in a Rome hospital less than five months after the death of her husband, the director Federico Fellini. She was 73.

The cause was cancer, said Prof. Paolo Pola, who had treated Miss Masina in the Columbus Clinic in Rome.

Miss Masina had been in poor health for months, but she seemed to deteriorate after her husband died in October. When she appeared at his funeral, looking frail in one of her last public appearances, she blew kisses and waved toward his casket as it was carried from the church.

www.ystamp.cymru
stuffed newydd
yn wythnosol x

Eisiau
cyfrannu?
Cysyllta!
Golygyddion.
ystamp@
gmail.com

MAGU IESU

ymateb i gelf

GEIRIAU: ELA PARI

CERDDORIAETH: CERYS HAFANA



Fel arfer yn Y Stamp ymateb i ddarlun neu ffotograff mae'r eitem 'Ymateb i Gelf'. Y tro yma felly dewiswyd darn o gerddoriaeth gan y cerddor Cerys Hafana. 'Emyn y Glaw' yw teitl y trac a gellir ei glywed ar ei halbwm newydd cwmwl sydd ar gael ar nifer o wefannau ffrydio, neu gallwch brynu copi caled gan Cerys yn uniongyrchol. Os am ragflas gallwch ddod o hyd i'r trac ar Soundcloud hefyd. Ela Pari aeth ati i ymateb i'r gerddoriaeth, a'r stori fer isod oedd ffrwyth ei dychymyg wrth i 'Emyn y Glaw' chwarae.

Os 'da chi'n meddwl bod magu hogia' yn hunllef, rhowch dro ar fagu un sy'n gallu creu gwyrthiau! Mae'r direidi yn ddiiddiwedd a'r posibiladau o ddrygioni yn annirnadwy. Mae o mewn rhyw oed annifyr rŵan. Hen Snichyn. Rhwng plentyndod a glaslencyndod 'de, pethau yn dechrau newid a thyfu aballu. Wrth ei fodd yn gwneud gwyrthiau o flaen ei ffrindiau, ac yn meddwl ei fod o'n glyfar, ond mae'i bwerau o'n diflannu pan mae angen sgubo llawr neu olchi dillad. Sôn am gamddefnyddio pwerau, mi ges i helynt efo fo'r diwrnod o'r blaen. Mi oedd hi'n ddiwrnod golchi a fynta wedi bod o dan draed drwy'r bore nes y cafodd o syniad anhygoel o fynd allan i chwarae. 'Iesu bach', medda fi, 'dyna ydy'r peth gorau ti 'di ddweud drwy'r dydd! Dos wir!'. Cyn i'w sandal chwith fynd drwy'r drws dyma fi'n cofio ei natur o, ac yn rhybuddio; 'Ond paid ti a meiddio dod yn nôl adra wedi bod yn gwneud drygau!'

Mi ges i bnawn bach go lew wedyn, ar ôl cinio dyma fi'n hel Joseff yn ôl at ei waith, clirio'r bwrdd bwyd ac wedyn rhoi'r dillad oeddwn wedi bod yn eu sgwrio drwy'r bore i sychu yng ngwres yr haul. O'r diwedd dyma fi'n ymlacio. Roedd yr haul wedi bod yn gorffwys ei belydrau ar fy nghefn drwy'r prynhawn gan fy ngadael yn frowngoch, felly mi oedd oerni'r gadair bren yn y gegin yn foethusrwydd pur. Ciciais fy sandalau oddi ar fy nhraed chwyslyd a'u gosod hwythau ar y gadair drws nesa' i mi. Ond, cyn gallu gadael i 'ngwddw lacio a 'mhen ollwng yn ôl, tarfwyd arnaf gan sŵn o'r ochr arall i'r drws. Dyma fi'n meddwl i mi fy hun, oedd yr ieir wedi dengyd? Blaidd, wrach, wedi dod i'w bygythio? Ella bod y ceiliog yn camfahafio? Ond dim ieir oedd yn clwician tu allan i'r drws; nage, neb ond tair o ferched mwyaf mawreddog Nasareth; Gwen Tŷ Crand, Bethan Tŷ Crandiach a Gwawr Tŷ Crandiach Byth. Y peth olaf roeddwn i angen ei weld oedd y dair yma wedi eu trochi mewn aur a minnau yn sach denau o esgyrn wedi bod yn pobi yng ngwres yr haul drwy'r dydd – doedd chwys y prynhawn heb gael cyfle i sychu ar fy nhalcen hyd yn oed. Mae hi'n anodd gen i gredu bod y dair yma erioed wedi teimlo chwys ar eu crwyn meddal – does dim cyfle iddo ymddangos gyda'r gweision a'u gwyntyll yn eu hawyru drwy'r dydd. Mi fasa chi'n meddwl y buaswn i yn cael ceiniog neu ddwy am fagu gwardwr y byd, bysach? Ond na, mae'n rhaid i mi setlo efo fy ffedog a fy mwthyn bach.

'Ferched, su'd yda' chi gyd? Be' sy'n dod a chi i gyrion yma'r dre?' medda fi tra'n straffaglu allan o'r tŷ wrth geisio strapio fy sandalau yn ôl.

'Mair. Oes gynnoch chi unrhyw syniad lle mae'ch mab chi?' holodd Bethan.

'Mae o wedi gadael y tŷ i chwarae ers tro, pam bo chi'n holi?' Mi o'n i'n hollol ymwybodol o fy osgo blinedig o flaen y merched a safai yn dal a ffroenuchel.

'Mae Iesu wedi llofruddio'n meibion ni Mair! Ein hogiau diniwed ni! Y tri wedi eu darganfod yn farw wedi boddi yn yr afon!' Mi oedd llais Gwen yn dringo octif wrth adrodd yr hanes.

Roedden nhw'n galw Iesu yn llofrudd! Fy lest i! Dim ffiars o beryg.

Torrais ar draws eu cyhuddiadau, 'Arafwch rŵan ferched, fedrwch chi ddim jest cyhuddo rhywun o lofruddiaeth, yn enwedig rhywun mor barchus â Iesu Grist.'

Ceisais fy lwc, doeddwn i ddim yn coelio'r un gair oedd yn dod o fy ngheg, hen ddiawl drwg ydi Iesu yn y bôn fel

pob hogyn ifanc arall. Ond doeddwn i ddim am adael i rhain feddwl ei bod nhw yn oruwch na Iesu, nag oeddwn? 'Gwrandwch ferched, mi wnâi resymu efo chi, os ydi Iesu yn dod adref heno a fyntau yn cyfadda' bod y stori yma'n wir, yna mi 'nai wneud yn saff ei fod yn cael ei gosbi.' Gwaredwr y byd neu beidio, geith o chwip din gan ei fam.

Pan ddaeth Iesu adref o'r diwedd roedd hi'n agos i nos a minnau'r un mor agos i fynd o fy nghof yn disgwyl amdano.

'Iesu! Lle ti di bod? Ti'n iawn? Ti'n saff rŵan. Ti wedi bod yn camfihafio do? Be haru ti? O! Ti 'di llosgi dy 'sgwydda. Deuthai be ddigwyddodd. O! dwi'n dy garu di, y diawl bach drwg! Wan ista lawr a cau dy geg a gwrandda arna i. Na ... deuthai be ddigwyddodd gyntaf!' Daeth 'na lobsnows mawr o emosiynau a theimladau a damcaniaethau a phregethau o fy ngheg yn flêr.

Mi 'nath o gyfaddef yn ddigon buan fel pob crïstion 'da', ond cyfaddefiad llawn esgusodion oedd o. Heb fod yn unochrog, dydw i ddim yn gweld llawer o fai arna fo chwaith.

Fel hyn y digwyddodd hi; Daeth lest ar draws y tri crachfonheddwr wrth yr afon. Mi gynigodd o yn annwyl os oedden nhw eisïau chwarae pêl efo fo, ond codi eu trwyna' ar y syniad wnaethon nhw. Mi alla i ddychmygu eu hwynebau crwn, hunanfoddhaol nhw rŵan! Codi eu trwynau ar Iesu am ei fod o yn hogyn tlawd wedi ei eni mewn stabl. Does dim ots gen i be maen nhw'n ei ddweud, mae'i eni fo yn gwneud stori dda tydi! Ta waeth, gwrthod wnaethon nhw, ac yn naturiol roedd Iesu yn teimlo ei fod angen profi ei hun – wedi'r cwbl, doedd o ddim am adael i'r moch bach wneud iddo fo deimlo fel baw isa'r domen. Gyda'i allu goruwchnaturiol defnyddiodd belydrau'r haul, medda fo, i greu pont dros yr afon. Gwallgof de. Pwy sa'n meddwl y buaswn i 'di rhoi genedigaeth i hogyn sy'n rheoli pelydrau'r haul fatha brics! Dwi'n amau mai Duw sydd ar fai yn rhoi ffasiwn bŵer i hogyn mor ifanc, be ti'n ddisgwyl 'de? Ar ôl i Iesu wneud ei ffordd dros y bont yn ddi-drafferth, dyma'r crachfonheddwyr yn rhoi tro arni. Ond doedd dim pont iddyn nhw nagoedd! Tasa nhw ond wedi gwlychu, mi fasa hi'n stori ddigon doniol, ond mi oedd yn rhaid iddo fynd un cam ymhellach a gadael iddyn nhw foddï. Doedd gen i ddim dewis felly ond troi at yr Helygen.

Mae pawb yn addoli Duw dydyn, Duw yn creu dydd a nos, Duw yn creu anifeiliaid bach selog, Duw yn gwneud hyn a Duw yn gwneud llall, ond ylwch pwy sy'n gorfod disgyblu ei fab o! Dyma fi'n gosod Iesu ar fy nglin, dychrynais braidd gymaint oedd o wedi tyfu, doeddwn i heb deimlo ei bwysa i gyd fel hyn ers iddo fod yn bwt o beth. Fe wnaeth y darlun ohono'n fach ac yn selog ddim helpu wrth i mi baratol fy hun i'w chwipio. Tynnais yr helygen yn dynn, codi mraich yn uchel a'i daro dair gwaith, ar ei foch dde, un am bob hogyn.

Yn rhyfedd iawn, cymryd yn erbyn yr helygen wnaeth Iesu, meddyliau plant yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol dydyn! Penderfynodd roi melltith ar y goeden druan fel mai'i chalon fydd yn pydru gyntaf wrth farw. Annifyr de. Dydw i ddim yn cwyno cofiwch, mae'n well gen i mai'r planhigyn ydi pwnc ei gynddaredd a dim fi.

Does gen i ddim syniad os ydw i'n gwneud hyn yn iawn, ei fagu fo 'lly. Pwya wŷr, de.

Duw a wŷr am wn i, ond tasa Duw yn gwybod, siawns y bysa fo'n fy helpu? Byasa d'wch?




ADOLYGIADAU

Y mae holl adolygiadau y Stamp wedi ei hysgrifennu'n ddiennw, er mwyn annog gonestrwydd. Dyma'r tim adolygu ar gyfer y rhifyn hwn.

BETHAN SLEEP | LLŶR TITUS | CAIN MUSE | TEGWEN BRUCE-DEANS | SERAN DOLMA | NAOMI NICHOLAS | JUDITH MUSKER TURNER

O.M. - Cofiant Syr Owen Morgan Edwards gan Hazel Walford Davies, Gomer, pris: £29.99



Mae O. M. Edwards yn llawn cymaint o ddelw â'r cerflun efydd iddo ym mhentref Llanuwchllyn a pheth rhwystredig ar un wedd i'r sawl sydd yn ymddiddori yn ei fywyd ydi na chafwyd cofiant cyflawn, gonest a chraff iddo cyn eleni — ganrif union wedi ei farwolaeth. Ond os oedd yn rhaid aros yna roedd hi'n sicr yn werth gwneud hynny.

Dyma'r cofiant cyflawn cyntaf iddo yn yr ystyr ei fod yn trafod bywyd Edwards i gyd; yn un peth, am pan na wnaethpwyd hynny o'r blaen, ond hefyd am ei fod yn gwneud hynny heb guddio gwirioneddau'r bywyd hwnnw.

Mae'n gofiant eithriadol, un sy'n ddisglair yn ei fynegiant a'i ymchwil ac yn rhoi darlun byw a di-flewyn ar dafod o ffigwr dylanwadol iawn. Drwy ddefnyddio geiriau Edwards ei hun yn aml caiff darllenydd ddadansoddiad cynhwysfawr ar ei fywyd a'i waith. Llwyddwyd i roi portread agos o unigolyn heb droi at ddefnyddio enw annwyl, ffug agos atoch chi. Mae'r portread yn un cytbwys, yn canmol lle mae hynny'n briodol (ac mae lle i ganmol Edwards, nid ar dywod godwyd y ddelw, wedi'r cyfan) ond hefyd yn rhoi darlun llawn o fethiannau a rhagfarnau niferus.

Peth arall y dylid ei ganmol yw'r sylw a roddir yn y cofiant i deulu Edwards ac yn benodol i Ellen ei wraig. Nodyn sy'n dangos sensitifrwydd a medrusrwydd y cofiannydd yn hynny o beth ydi iddi nodi mai 'Ellen' yw'r enw a ddefnyddid yn y cofiant am mai hwnnw oedd yr enw a ddefnyddiai hi, yn hytrach na'r Elin a roddwyd iddi gan Edwards. Ffigyrau cefndirol yw gwragedd 'dynion mawr' yn draddodiadol yn y byd diwylliannol Cymraeg — yn deipyddion, yn fagwyr plant ac yn gadwyr aelwyd. Mewn aml i gofiant i'r 'mawrion' ni cheir ymgais ddigonol i drafod eu rôl yn llwyddiant eu gwŷr na'u bywydau fel unigolion, nac effaith y berthynas arnynt chwaith. Rhoddwyd llais haeddiannol i Ellen yn y cofiant hwn a dangoswyd effaith drasig ac andwyol cyd-fyw hefo un o'r 'dynion mawr' arni. Os byddai rhywun yn ddigon gwirion i ddadlau nad lle cofiannydd ydi trafod gwragedd a theulu gwrthrych y cofiant mae'r ffaith fod y dadansoddiad o gymeriad Ellen nid yn unig yn gwneud tegwch â hi ond hefyd yn rhoi portread llawnach o Edwards yn gwrthbrofi haerriad o'r fath.

Bob hyn a hyn gwelir rhes bach y sêr sy'n awgrymu i ddeunydd gael ei dorri. Mae hi'n biti eithriadol i hynny ddigwydd, yn enwedig os mai penderfyniad ar ran y wasg ac nid y cofiannydd oedd o. Er bod y cofiant yn swmpus o raid, doedd yna'r un adeg lle teimlais fod y darllen yn flinderus. Yn wir, dyma gofiant hynod o ddarllenadwy, un sy'n hebrwng rhywun yn ddestlus drwy fywyd Edwards yn ymddangosiadol ddi-drafferth. Mae hynny, dyfnder a safon yr ymchwil a'r ffaith fod rhywun yn teimlo fel eu bod yn nabod Edwards wedi iddyn nhw orffen darllen yn gwneud hwn ymysg y cofiannau gorau i mi ddarllen erioed.

Dal i Fod gan Elin ap Hywel, Cyhoeddiadau Barddas, pris: £8.95

Cerddi i'w plymio iddynt ac wedyn suddo yn araf bach trwy eu dyfnderoedd, gan droi i sylu ar bob math o ryfeddod ar daith fyfyrar i waelod anghyraeddadwy, yw cerddi'r gyfrol hon. Mae dawn sylweddol gydag Elin ap Hywel i greu delwedd sy'n dal eich sylw a'i defnyddio fel kannwyll i'ch denu trwy gerdd, gan eich

tywys yn ofalus i lefydd syfrdanol ac annisgwyl. Gwelir ei hymwybyddiaeth o'r ddawn honno a'i phwysigrwydd i'w chreffft yn y gerdd 'Gweithdy', sy'n disgrifio ymgais grŵp o ddisgyblion i gyfleu syniad trwy gymariaethau, 'yn estyn llond dwrn o anadl / o law i law' a'r syniad yn 'symud trwy'r distawrwydd / fel adain fawr sy'n curo môr o olau'. Llwydda'n gywrain i dynnu sylw at y gwacter sydd rhwng geiriau, at yr anghysondeb sydd rhwng iaith a phrofiadau'n synhwyrau, ac yn canfod

locws creadigrwydd a dynoliaeth yn ein brwydr 'i gydio, rhywsut, / yn hanfod y dieithriwch hwn'.


Efallai ei fod yn ddadlennol bod sawl un o'r delweddau a ddefnyddir yn y gerdd hon yn dychwelyd trwy gydol y gyfrol: cragen, plisgyn, rhisgl. Pethau brau, yn dwyn i gof teitl ei chyfrol o 1982. Pethau sy'n dal rhywbeth hylif, amhendiant, byw. Yn y gerdd 'Llatai' myfyria'r bardd ar ba beth i'w anfon yn 'lladmerydd anllythrennog fy nheimpladau' cyn penderfynu ar handbag. 'Lapiaf fy llythyr mewn croen', dywed, gan fynd ymlaen i restru'r trugareddau a gynhwysir ynddo, yn drysu'r ffiniau rhwng ei chymeriad a'i heiddo'n chwareus. Mae'r cynwysyddion neu'r llestri sy'n ymddangos yn aml yn y cerddi'n cyfateb i'r ffiniau canfyddedig rhwng y corff a'r meddwl, bywyd a marwolaeth, y diriaethol a'r haniaethol. Trwy roi sylw i'r ymylon hyn mae modd cyfleu rhyw bersbectif ar eu cynnwys anweledig, anniffiniol. Yn 'Galvanic', er enghraifft, rhyfedda gweinidog a'i ferch ar wyrth y microdon:

'Mae'n debyg i ffydd,' medd y ferch –
'Mae'n ddi-sŵn,
yn ddioglau,
yn ddi-liw,
ac eto, rhywsut, mae'n newid pethau.'

Mae ei geiriau, wrth gwrs, yn dweud cymaint am y ferch, ei byd olwg a'i pherthynas â'i thad ag am y microdon, mewn un frawddeg gynnil. Yn 'Pwy oedd chwiorydd Heledd', ergyd o gerdd sy'n agor y gyfrol, mae Heledd yn '[b]roffwydes yn fferru ar y ffin, / yn cwafro ar hyd y canrifoedd rhwng rheswm a rhigwm' ac yn '[G]asandrys o Gymraes heb ei chragen mewn dyfodol di-ddyn'. Mae'r bardd yn tynnu Heledd allan o gysgodion y stafell dywyll a'i thawelwch honedig. Ynghyd â choethder a sensitifrwydd ei hymdriniaeth o'r berthynas rhwng meddwl, iaith a chanfyddiaeth, mae llais Elin ap Hywel hefyd yn heriol, yn ddewr ac yn ffraeth. Yn 'Duwiesau', gorfoledda yn nuwiesau Cymru,


'Freninesau'r gwyllt, y lloerig, y bobl o'u coeau' â 'meillion eich dicter gwyn yn dynn wrth eich sodlau'. Rhyddha ei chymeriadau chwedlonol o'u swyddogaethau traddodiadol: yn y gerdd 'Pwytho' o'r gyfres 'Rhiannon', sy'n gweu amser a phersbectif mewn modd soffistigedig, mae Rhiannon yn sôn am '[r]yw law' yn ei phwytho hi a'i cheffyl i lun brodiog, lle mae hi'n aros am ganrif tan fod yr eiliad yn rhwygo 'fel cleddyf yn llathru trwy sidan' ac mae hi'n cerdded 'allan o'r darlun, yn syth i lygad yr haul'. Yn 'Adroddiad', mae Blodeuwedd yn 'ymgynefino / ag adareiddrwydd' ac yn dod i'r casgliad pragmatig bod plu'n 'haws o lawer i'w cadw'n lân'. Nid oes angen dweud pa mor braf yw darllen cyfrol llawn cymeriadau benywaidd pryfoclyd, annibynnol a doeth, sy'n adlewyrchu deallusrwydd llais Elin ap Hywel ei hun. Mae llawer o gerddi sy'n haeddu ymdriniaeth llawer mwy manwl nag sy'n bosib yma, yn cynnwys sawl un sy'n delio â themâu a phynciau haniaethol cymhleth mewn ffordd sydd wastad yn llwyddo i osgoi bod yn niwlog ac aneglur.

Anaml y bydd cyfrol yn eich llenwi gyda chymaint o foddhad a llawenydd ar y darlleniad cyntaf, ac rwy'n sicr y byddaf yn dod yn ôl ati dro ar ôl tro. Mae cyflwyniad gwresog Menna Elfyn a Beth Thomas i'r bardd a'r gyfrol yn cyfleu rhywbeth o gymeriad addfwyn Elin ap Hywel, sy'n bresennol trwy ei cherddi. Er y tristwch mawr fod ei diagnosis o ddementia yn gyd-destun i gyhoeddiad y gyfrol, rwy'n hynod falch bod y corff o waith pwysig hwn wedi cyrraedd golau dydd. Mae'n gyfraniad gwerthfawr i lenyddiaeth Cymru sy'n haeddu pob sylw ac sy'n profi, yn sicr, bod Elin ap Hywel dal i fod.



**Filo, gan Siân
Melangell Dafydd,
Gwasg y Lolfa, pris:
£8.99**

Hanes criw o ddeuddeg o garcharorion rhyfel Eidalaid ar ôl iddynt ildio ym mrwydr El-Alamein a gawn yn *Filò*, nofel newydd Siân Melangell Dafydd. Mae'n agor a



hwythau ar long o'r enw'r Maloja, heb unrhyw syniad i ble maent yn mynd nac am ba hyd y bydd y daith yn parhau. I basio'r amser maent yn adrodd storïau, (Ystyr 'Filò' yw grwp o bobl yn cwrdd i rannu storïau) a daw'n amlwg yn fuan bod pwysigrwydd storïau yn un o brif themâu'r nofel.

Beth sy'n amlwg iawn am storïau'r carcharorion ar y cychwyn yw eu bod gan fwyaf o natur ysgafn a digrif, ac yn gwneud yn fach o'u amgylchiadau – mae un ohonynt wedi colli coes, ond ta waeth, fe dyfith yn ôl ... A dyma osod y tôn ar gyfer cymeriad y criw – maent yn ddigrif, yn gynnes, yn gwisgo'u dioddefaint yn ysgafn ac

ddim yn rhai i gwyno, hyd yn oed am broblemau iechyd difrifol, colledion, caledi a marwolaeth.

Adroddasom straeon, un ar ôl y llall, er mwyn atgyfodi cariad at fywyd. Ac roeddem yn llwyddo.

Dim ond ar ôl cael y newyddion fod Mussolini wedi ei grogi tua hanner ffordd trwy'r nofel maent yn caniatáu i'w hunain gofio a thrafod y pethau ofnadwy sydd wedi digwydd iddynt. Yn yr ystyr yma mae storïau'n gweithredu fel lloches rhag caledi a chreulondeb, yn gwarchod y criw rhag y gwir, ond yna'n trawsnewid i fod yn ffordd o wynebu ac ymdopi gyda'r gwir, ei brosesu a dod o hyd i ffordd o fyw gydag o. Mae awduron ffuglen yn dueddol o fawrygu'r grefft o ddweud stori, ac o roi lle canolog i naratif mewn seicoleg cymeriadau. Credaf fod Siân Melangell Dafydd yn yr achos yma yn cyflwyno dadl gref am rôl storio wrth greu cymuned, delio gyda digwyddiadau trawmatig a gwarchod hunaniaeth o dan amgylchiadau gorthrymus.

Mae'r carcharorion yn adrodd ac yn ailadrodd storïau, yn eu mabwysiadu a'u rhannu fel na ellir gwybod erbyn y diwedd pwy oedd piau pa stori yn wreiddiol, ac mae'r 'ni' torfol yn dod yn gymeriad ynddo'i hun.

Mae Siân yn cydnabod yn y diolchiadau (wrth ddiolch i Tony Bianchi) bod y llyfr wedi dechrau fel 'arbrawf penstiff mewn adrodd stori gan ddefnyddio'r person cyntaf lluosog yn unig'. Mae'n rhaid ei bod wedi penderfynu nad oedd yr arbrawf hwn yn gwbl llwyddiannus, oherwydd mae yma brif gymeriad o rhyw fath, sef Guido Fontana. Cawn rhywfaint mwy o fanylion am amser Guido yng Nghymru (canys i Gymru y gyrrwyd y deuddeg, yn y pen draw) nac y cawn am y lleill, ond rhywsut mae cymeriad Guido yn gweithredu mwy fel cynrychiolydd neu lefarydd ar ran y grwp nac fel unigolyn gyda'i fywyd mewnol ei hunan. Neu efallai y byddai'n decach dweud ei fod yn rhannu ei fywyd mewnol gyda'r carcharorion eraill, fel na ellir gwahaniaethu yn hawdd rhyngddo ef a'r lleill. Mae eu lleisiau yn cyfuno ac yn plethu i greu cyfanwaith sy'n adlewyrchu'r profiad torfol o fod yn garcharor rhyfel. Mae'r hyn sy'n eu huno yn fwy na'r hyn sy'n eu gwahaniaethu fel unigolion, er gwaetha'r ffaith eu bod yn dod o wahanol ardaloedd yn yr Eidal ac yn siarad gwahanol dafodieithau. Yn hyn o beth, mae'r nofel yn debycach i waith corol nac i nofel bolyffonig yn ystyr arferol y gair. Effaith hyn yw i gyffredinol'i'r profiad a'i wneud yn rhywbeth eang, hanesyddol. Mae hyn yn anarferol mewn ffuglen, ble mae'r pwyslais yn dueddol o fod ar wneud profiadau torfol yn benodol, ac ar leoli a phersonoli grymoedd hanesyddol a geo-wleidyddol.

Er hynny, mae yma ddigon o fanylion diriaethol am amodau mewn gweryslyoedd ac ar ffermydd, a'r berthynas rhwng y carcharorion a'r bobl leol yng nghefn gwlad Cymru i wneud i ni deimlo realiti'r sefyllfa. Mae'r berthynas hon yn llawn gwrthgyferbyniadau ac amwysedd. Mae'r carcharorion yn ymwybodol iawn o'u statws fel pobl heb hawliau na rhyddid, ac o'r cyfreithiau sy'n bodoli er mwyn atal y boblogaeth leol rhag ffurfio perthynas â hwy. Ac eto mewn rhai ffermydd maent yn cael eu trin fel meibion, brodyr a chariadon. Ar ddiwedd y nofel pan maent yn cael dychwelyd i'r Eidal o'r diwedd, mae'r teimlad o ddieithrwch bron yn gymaint ac yr oedd wrth gyrraedd Cymru am y tro cyntaf, ac mae rhai yn dewis dychwelyd i'r wlad ble'u carcharwyd. Mae'r teimlad yma o beidio perthyn yn y naill lle na'r llall yn rhywbeth fydd yn gyfarwydd iawn i ymfudwyr a ffoaduriaid o bob oes, ac yr un mor berthnasol heddiw ac yr oedd yn ystod cyfnod y rhyfel.

Mae arddull y nofel yn anffurfiol, llafar a llawn geiriau tafodieithol Eidalaid. Mae rhai ohonynt yn cael eu cyfieithu a rhai ddim, ac ar y cychwyn mae'r darllenydd yn teimlo fel petai wedi ei ddieithrio gan y geiriau anghyfarwydd hyn. Mae'r teimlad o ddryswch efallai yn adlewyrchu beth fyddai'r carcharorion wedi teimlo wrth gael eu symud o gwmpas yn erbyn eu hewyllys. Serch hynny erbyn y diwedd maent yn dod i deimlo'n gyfarwydd ac yn annwyl, yn rhan o gymeriad y dynion wrth i ni ddod i'w hadnabod. Mae'r nofel hefyd yn llawn hiwmor absŵrd a gosodiadau sy'n gwrthgyferbynnu neu'n gwrthddweud, gan adlewyrchu'r ffordd mae stori yn newid ac yn datblygu wrth ei ailadrodd gan wahanol bobl, a'r ffordd mae pobl yn gwneud pethau i fyny wrth siarad, yn gwella ar y stori wrth fynd. Mewn darn arbennig o graffig am barasit a gafodd un o'r carcharorion, mae'r traethydd yn dweud: 'Roeddem wedi dychryn gormod i fesur y peth. Heb air o gelwydd, roedd o'n ddeg metr, mwy...'

Lawer gwaith, mae'r dull yma o helaethu neu wrth ddweud 'ar yr un gwynt' yn gweithio'n dda i greu hiwmor mewn sefyllfa dywyll, ond ar ambell achlysur mae'n medru bod yn ddryslyd, ac mae'r ystyr yn mynd ar goll y tu ôl i ddisgrifiadau o freuddwydion, storïau ffantasiol, gor-ddweud a gwrth-ddweud. Fodd mae hyn i gyd yn rhan o natur y gwaith, ac mae Guido yn tynnu sylw ato ei hun mewn ambell le.

Tua diwedd y nofel cawn gyfarfod â Guido yn ei henaint, yn siarad gyda fersiwn ffuglennol o'r awdur, yn edrych yn ôl ac yn ceisio deall y profiad y cafodd yn ystod y rhyfel. O'r diwedd mae Guido yn camu ymlaen fel cymeriad ar ei ben ei hun, ac yn ei ffordd diymhongar ac addfwyn, mae'n rhannu ei feddyliau am ryfel, heddwch, euogrwydd a pherthyn. Mae

casgliadau Guido wrth edrych yn ôl ar ei fywyd yn cynnwys negeseuon pwysig ac oesol, ond does dim gronyn o foeswers na phregeth yma; mae i gyd yn llifo'n naturiol o brofiadau'r cymeriad y mae Siân wedi ei greu.

Llyfr Gwyrdd Ystwyth, gan Eurig Salisbury, Cyhoeddiadau Barddas, pris: £8.95

Yn ddilyniant priodol i'w gyfrol gyntaf, mae *Llyfr Gwyrdd Ystwyth* yn gasgliad o dros ddegawd o gerddi'n crisialu profiad bardd ifanc yn fforio drwy'r gymdeithas fodern. Yn dilyn llwyddiant ysgubol *Llyfr Glas Nebo* llynedd, peryglus efallai oedd dewis Eurig i dynnu ar yr un ysbrydoliaeth

draddodiadol ar gyfer enw'r gyfrol hon, rhag iddi foddi yn hunaniaeth llyfr arall. Ond daw i'r amlwg o'r darlleniad cyntaf mai ofer yw'r gofid hwn. Egyr y gyfrol gyda sawl cerdd sy'n dathlu bro'r bardd. Fodd bynnag, yn hytrach na chofnodi hanesyn cilfach o dir, ymestynna Eurig ffiniau ei farddoniaeth tu hwnt i '[f]ybl' Aberystwyth neu, yn wir, 'bybl' Cymru ei hun.


Wedi'i nythu yng nghanol y gyfrol, dyma yw union swyddogaeth fy hoff gerdd o'r casgliad, 'Ffiniau'. Cerdd swmpus ydyw sy'n crisialu dawn ryfeddol y bardd wrth drin y wers rydd. Gan herio'r ffiniau rhwng rhyddiaith a barddoniaeth, mae yntau hefyd yn herio ffiniau'r berthynas wleidyddol ac ieithyddol sydd rhwng Cymru ac India. Nid wyf am esgus fy mod i wedi deall pob tric a throsiad y mae Eurig yn pentyrru yn y gerdd hon. Ond o'r blas o afael cefais o'r darlleniad cyntaf, cefais awch i ymchwilio ac i ddeall fwy am 'ffreutur rhyngwladol Urien ei hun', a'r gyfnewidfa Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau a sbardunodd y gerdd. Efallai byddai'r gerdd wedi elwa o fwy o esboniad uniongyrchol yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar awydd darllenwyr i ddatrys trosiadau. Fodd bynnag, ddaw dim drwg o'r orfodaeth i drin cogiau'r meddwl ag olew i'w warchod rhag y fagl o ddarllen diog. Os rhywbeth, mae rhai o gerddi gwannaf y gyfrol yn ddibynnol ar drosiadau amlwg sydd wedi'u gorddefnyddio nes bod ergyd y symlrwydd yn cael ei golli, megis yn y ddelwedd o ddiodydd poethion yn 'Serenestial'.

Amrywiaeth eang o fesurau ac arddulliau sydd yn y gyfrol hon. Ceir cymysgedd o gynganeddu tafod yn y boch fel yn 'Dychan i swyddog carafán' gyda darnau

Mae Siân Melangell Dafydd wedi mentro i dir arbrofol gyda'r nofel yma, ac wedi llwyddo i greu gwaith gwreiddiol, cyfoethog a chynnil.

sy'n ymdebygu'n fwy i lèn-micro, fel yn 'Coron Ceri', sy'n creu coctel digon cryf i feddwi hyd yn oed y bardd mwyaf blinderus. I mi, mae Eurig ar ei fwyaf pefriol wrth iddo adrodd hanesion i'r darllenwr yn ei natur storïol. Llais y bardd yn ei holl ogoniant tafodieithol sy'n canu'r gerdd 'Porth', ac yn hynny y mae'r barddoni mwyaf amrwd a naturiol. Mae'r defnydd o fratiaith a bathiadau hefyd yn hwyluso hygyrchedd y farddoniaeth i gynulleidfa fwy. Diau fod hygyrchedd yn thema bwysig i'r bardd, am iddo hefyd agor llygaid y Cymry llenyddol ceidwadol i gerdd Bengali adnabyddus gan Rabindranath Tagore ar ffurf y cyfieithiad 'Ein hafon fach ni'. Fodd bynnag, teimlaf nad yw rhai o'r cerddi cyfarch niferus yn y gyfrol yn llwyddo'n argyhoeddiadol i daro'r un nodyn o hygyrchedd. Yn bersonol, mwynheais 'I Gruffudd Owen' am fy mod i'n gyfarwydd â'r bardd a'i waith buddugol a ganmolir yn y gerdd hon. Ond cwestiynaf a fyddai'r wynebnewydd y mae'r bardd yn ceisio eu denu i'r byd barddoniaeth yn gallu gwerthfawrogi llwyddiant cynnil llinellau megis 'Dinas anghymdeithasol / Nad yw'n tecstio heno'n ôl' heb gyddestun ehangach. Nid yw hynny i ddweud nad yw pob cerdd cyfarch yn llwyddo serch hynny: gan ddefnyddio delweddau cyfarwydd a bachyn digrifol, nid oes rhaid adnabod testun 'Cywydd cas y Gwas' er mwyn cael gwir flas arno. Cwestiynaf felly beth yw gwir fwriad y gyfrol: modd i'r bardd gasglu ei waith personol, ynteu modd iddo ganu'n gyhoeddus i gynulleidfa eang?

Mae troedio tir themâu oesol yn drywydd heriol i unrhyw ysgrifennwr. Er gwaethaf brwdfrydedd rhywun dros bwnc yr iaith Gymraeg, mae'n hawdd blino ar yr un delweddau'n cael eu hail-ddychmygu dro ar ôl tro dros y canrifoedd. Wrth weld y cerddi 'Cymraeg o'r crud' a 'Tafod newydd' gefn-wrth-gefn â'i gilydd yn y gyfrol, felly, parheais i ddarllen yn rhagdybiol. Ond gyda'r ddelwedd estynedig o'r tafod yn rhedeg trwy'r gerdd am famiaith a'r gerdd am ail-iaith, llwydda Eurig i chwalu'r ffiniau rhwng siaradwyr a dysgwyr a'u darlunio fel yr un bobl: rhai sydd â'r fraint o feddu ar yr heniaith. Trafodir y pwnc oesol hwn mewn modd sy'n berthnasol o gyfredol. Yn y bôn, ysgrifennu hanes ydym ni; heb gofnodi ein stamp ni mewn hanes yn hytrach na myfyrio'n gaeth ar y gorffennol, ni fydd cofnod cynrychiadol o'n cyfnod ni ar y Ddaear. Tra bod *Llyfr Gwyrdd Ystwyth* ar adegau yn cynnig cipolwg o fywyd personol y bardd, mae'r gyfrol hefyd yn deyrnged i'w hoes ac yn crisialu ffrwyth meddyliau a phrofiadau pobl ifanc sy'n trigo'n ein cymdeithas fodern heddiw.



Tra'n aros gan Lauren Connelly a Hafwen Hibbard, Cwmni'r Fran Wen

Heddiw â'n dyddiaduron yn segur a'n calendrau yn wag mae'n anodd dirnad amser. Bron y gellid dweud bod amser wedi colli ei arwyddocâd wedi misoedd o geisio addasu at rythm newydd, unffurf o fyw. Datblygwyd *Tra'n Aros*, sef cyfres o luniau a ffilm gan yr artistiaid ifanc Lauren Connelly a Hafwen Hibbard fel rhan o Raglen Datblygu Artistiaid Ifanc Frân Wen. Er mai cwta tri munud oedd y ffilm, cefais fy fferru gan yr arafwch niwlog. Wrth ailadrodd tasgau beunyddiol llwydda Lauren a Hafwen i groniclo'r rhwystredigaeth o fod yn ystod y Clo Mawr.

Cryfha'r dyluniad syml, clinigol yr ymdeimlad o fod yn sownd, o dan glo. Yn eu caethiwed rhanna'r ddwy brofiadau synhwyrus y gallwn i uniaethu â nhw wrth ddwyn y cyfnod rhyfedd hwn I gof yn ogystal â'r is-gyfnodau hynny o geisio amrywio'r drefn. Bron y gallwn ddirnad y ffilm yn gylchol yn hytrach nag yn lliniol, adeilada hynny at yr ymdeimlad o glawstroffobia. Y sgwrio a diheintio di-baid, y swigod a'r ewyn, y bochio spaghetti hoops ac yfed te fel cysur. Ond er y cyfarwydd-deb, profiad anghyfyrdus oedd gwyllo'r ddwy yn boddi a mogi mewn swigod, creision a the. Efallai mai dyna oedd ei angen, fel nodyn i'n



hatgoffa o ddifrifoldeb pandemig a chysgod y mogi a'r tagu. Ynghyd â hyn llwydda'r mygydau o ddeunyddiau bob dydd – papur newyddion, caead Pepsi a photel ddŵr fy atgoffa

o offer PPE a mygydau ocsigen. Atgof tywyll i'm sobri o ddifrifoldeb bod o dan glo. Roedd eu defnydd o fygydau'n fy atgoffa o gyfrif Instagram John Rowley a'i brosiect hudol Masks.

Er fy mod i'n medru dirnad y syniad o sefydlu ffrâm gyfarwydd galwad FaceTime, rhaid cwestiynu a fyddai'r ffilm yn gryfach heb amlygrwydd y 'Lauren Connelly connecting ...' a chydabod bod y sgrin yn rhewi. Mae'n debyg y byddwn i wedi medru dehongli hynny heb gymorth gweledol a throslais. Teimlais fod y troslais yn tansellio amwysedd y prosiect ar brydiau, yn enwedig y cwestiwn clo.

Heb os, mae'r bartneriaeth rhwng Lauren a Hafwen yn un cyffrous a diolch iddynt am greu'r ffilm hon. Law yn llaw â 120960 mae Frân Wen yn sicr wedi llwyddo i osod y llwyfan ar gyfer rhannu profiadau bobl ifanc yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn a diolch i'r drefn am hynny.

Ar Gof: Y lloer a'r sêr gan Mererid Hopwood, Atebol, pris: £12.99

Wrth adolygu'r llyfrynau bychain rhyfedd yma mae'n rhaid yn gyntaf benderfynu beth ydyn nhw. Paced bach du gyda thri llyfryn bach du tu mewn, a rheini'n cynnwys penillion a darluniau hudolus mewn lliwiau metalig, a thudalen o gyfarwyddiadau. Pwrpas y cyfarwyddiadau yw i ddysgu'r darllenwr sut I gofio y penillion yn y llyfrynau. Nid yw felly'n gasgliad arferol o farddoniaeth, na'n wirioneddol yn adnodd dysgu cerddi, ond yn gymysgedd hudolus o nifer o bethau.



Atgo: mae'r cyntaf o'r llyfrynau yn dechrau gyda teitl addas iawn o waith Hedd Wyn, ac yn cynnwys un bennill o'r gerdd yn unig i gael ei dysgu. Mae'r broses a

ddisgrifir yn y cyfarwyddiadau bron yn ddi-angen gan ystyried pa mor rhwydd yw deall proses y llyfryn, ac yn teimlo rhywfaint yn glinigol o'i gymharu ag effaith gelfyddol cyfosod y gerdd gyda'r darluniau.


Er fod nod y llyfrynau yn cynnwys plethiad cain o farddoniaeth, celf a dysgu, gall y llyfrynau sefyll ar eu traed eu hunain yn ddigon rhwydd gyda'r ddwy elfen gyntaf yn unig. Ac os ydi'r llyfrynau yn cael eu gwerthu fel ysgogiad i gofio cerddi, mae'r syniad o gofio yn bwysig ynddo'i hun, fel y pwysleisia Mererid Hopwood ar gefn y llyfrynau.

Pwysleisir y pwysigrwydd hwn o gofio fel rhan o'n treftadaeth Gymreig yn y penillion sydd yn y llyfrynau eraill, gan nad oes awdur ond fe'u cyflwynir fel 'traddodiadol'. Dilyna'r cerddi i gyd yr un thema, ond mewn ffyrdd gwahanol a darluniau gwahanol oll yn cyfrannu at y teitl o 'Y Lloer a'r Sêr'. Ar ddiwedd y profiad o ddarllen a dysgu'r penillion teimlwn fel nad oeddwn yn darllen penillion mewn llyfr ond yn hytrach wedi bod trwy darn o gelf interactiv.

Mae'r llyfryn yma'n cynnig ffordd newydd o werthfawrogi cerddi sydd yn fwy na'r geiriau, mewn ffordd sy'n fyw, ffordd sy'n bersonol, a ffordd sy'n cadw'r cerddi ym meddyliau'r darllenwr am amser hir.

Wal, gan Mari Emlyn, Y Lolfa, pris: £8.99

Mae *Wal* gan Mari Emlyn yn nofel fer sy'n sôn am hanes Siân a'i pherthynas gyda'r bobl o'i chwmpas. Awdures yw Siân sydd 'wedi bwrw wal' ac yng nghanol cyfnod o power cut, mae'n hel atgofion am ei phlentyndod. Cyfnod cyn ei chymydog Simon a'i gi Babka; cyn i'r 'Wal frics fawr, hyll' gael ei godi a chyfnod pan oedd yna goeden fedwen, hardd yng nghanol cul de sac swbwrbaidd Cilgant y Deri. Nofel gryno a modern yw *Wal* sy'n ddigri yn ogystal â dwys. Er ei bod yn fyr, mae'n dal i ymdrin â themâu dwys mewn ffordd nad wyf wedi gweld yn y Gymraeg o'r blaen. Themâu fel trais, galar a diwylliant y capel Cymraeg sydd i'w gweld a phob un wedi eu cyflwyno'n feistrolgar drwy lygad plentyn.



Alla'i ddim siarad am *Wal* heb sôn am yr arddull y mae'r nofel wedi cael ei hysgrifennu ynddi. I mi, dyma'r peth mwyaf trawiadol amdani. Byddai rhywun yn gallu cael eu camarwain i feddwl taw llyfr i blant yw hwn o edrych ar y clawr a chwpl o'r tudalennau cyntaf. Caiff ei hysgrifennu yn steil llyfrau *Ladybird* gan ddechrau gydag un neu ddau o eiriau ar bob tudalen ac wrth i'r naratif ddatblygu, hefyd felly mae swmp y geiriau. Dyma arddull arbrofol a modern a f'atgoffodd (i raddau) o *The Colour Purple* gan Alice Walker, lle mae

Saesneg y prif gymeriad yn newid o fod yn fratiog ar gychwyn y nofel i fod yn fwy ffurfiol erbyn y diwedd. Er nad yw'r iaith yn newid, mae'r print yn newid. Fel dywed y broliant, 'Gan ddilyn arddull llyfrau dysgu darllen, mae'r print mawr yn troi'n brint llai wrth i linyddau'r stori blethu trwy'i gilydd.' Mewn un ffordd, po fwyaf y bydd Siân yn hel meddyliau am ei phlentyndod, y mwya o eiriau sydd ar y dudalen. A phan mae Siân yn teimlo'n ansefydlog neu'n anghysurus, mae'r ysgrifennu yn adlewyrchu hynny – yn blith draphlith o feddyliau, cerddi, emynau a deialog. Teimlaf fod yr arddull yma o ysgrifennu yn pwysleisio'r cyferbyniad rhwng diniweidrwydd Siân fel plentyn a sinistrwydd yr hyn sy'n digwydd iddi a'r bobl o'i chwmpas.

Buaswn i wedi hoffi gwybod mwy am hanes brawd Siân a dod i adnabod Mam-gu Cenarth yn well; un o'r unig ffynonellau o oleuni ym myd tywyll Siân. Ond wedi dweud hynny, efallai buasai hyn wedi tynnu oddi ar y tywyllwch a grëwyd yn wych gan yr awdur, sydd yn rhan ganolog o'r plot.

Teimlaf fod beirniadaeth Mererid Hopwood ar y clawr yn crynhoi fy marn; mae *Wal* yn nofel '[g]ynnil, meistrolgar a chwbl wreiddiol. Gall ysgrifennu modern fel hyn gallu fod yn eithaf uch-ael ac weithiau'n anghyraeddadwy. Ond, dydy *Wal* ddim. Er ei bod yn nofel sy'n gwbl groes i ffuglen Gymraeg draddodiadol, mae hi dal yn nofel hygyrch, a'r iaith yn weddol syml. Serch hynny, nid yw hyn yn golygu ei bod hi'n nofel ddiflas – mae'n waith cain sy'n gwbl ddarllenadwy. Eto, mae hyn yn gwneud hi'n gwbl hygyrch i ddarllenwyr sydd, o bosib, ddim bob tro'n estyn am nofel Gymraeg. Braf hefyd oedd gweld gwaith fel hyn gan awdur benywaidd Cymraeg ac edrychaf ymlaen at ddarllen ei gwaith yn y dyfodol.

DALIER SYLW:

Oes gennych chi syniad am BAMFFLED? Darn o waith sydd ddim cweit yn mynd lenwi llyfr, neu sydd heb lwyfan addas? Casgliad neu ddilyniant cysyniadol o gerddi? Cyfres o weithiau celf? Llond llaw o gerddi neu ysgrifau, zine neu sribed gomig, neu gywaith arbrofol gydag artist neu awdur arall? Beth bynnag eich gweledigaeth, rydym yn chwilio am weithiau gwreiddiol a chysyniadau cyffrous i'w hychwanegu i raglen gyhoeddi pamffledi Cyhoeddiadau'r Stamp. Os oes gennych ddiddordeb gweld eich gwaith mewn print, gyrrwch grynodedb (uchafswm 300 gair) a sampl byr o'r gwaith (dwy dudalen A4 neu gyfystyr) draw atom dros e-bost i agor y drafodaeth!

cyhoeddiadau.ystamp@gmail.com

CELF Y CLAWR

Dyma ddod I nabod mwy ar yr artist sy'n gyfrifol am y gwaith sy'n ymddangos ar glawr y rhifyn hwn



GEIRIAU: ANYA PAINTSIL

Rwy'n artist Cymreig-Ghanaidd a anwyd yn Wrecsam yn 1993. Daw ochr Cymraeg fy nheulu o Ynys Môn a thyfais i fyny yn siarad Cymraeg a fwy neu lai wedi fy nhrwytho yn y diwylliant Cymraeg.

Mae fy ngwaith yn deillio o naratifau personol gan fwyaf, gan ganolbwyntio'n aml ar arwyddocâd hil a hunaniaeth ddu tu allan i ardaloedd dinesig, ffeministaeth, cof, dweud stori a ffantasi.

Dechreuais weithio â thecstiliau a gwallt am ddau brif reswm; y rheswm cyntaf oedd y syniad o wneud defnydd o sgiliau yr oeddwn wedi eu dysgu y tu allan i gyd-destun addysg celf, sgiliau yr oeddwn i fy hunan yn credu oedd yn dda i ddim y tu hwnt i blethu gwallt i ennill bach o arian poced, gwneud fy ngwallt fy hun neu i wneud rygiau i fy fflat i arbed arian.

Yr ail reswm yw'r cysylltiad rhwng celf tecstiliau a ffibrau a'r mudiad celf ffeministaidd, ac awydd I greu gwaith sy'n ffitio i'r llinach hon, ac i ddefnyddio deunyddiau'n bwrpasol mewn modd y gellir cyfleu hyn.

Gwnes fy mhenderfyniad cychwynnol i weithio gyda bachu rygiau (rug hooking), dull sydd fel arfer yn gysylltiedig â llafur, defnyddioldeb a thlodi yn wahanol i ffurfiau 'addurniadol' mwy traddodiadol celf tecstiliau megis pwytho a brodwaith safonol â nodwydd, er mwyn tynnu sylw at y ffaith fod hanes menywod mewn tecstiliau a ffibrau yn rhy aml yn canolbwyntio ar fenywod gwyn o'r dosbarthiadau uwch, gan nacáu hanes hir y menywod dosbarth gweithiol hynny a oedd yn rhan o gynhyrchu tecstiliau yn y DU ac yn fyd-eang.

Dylanwadwyd fy ymarfer artistig gan y profiad o dyfu lan yng Ngogledd Cymru, gan fwyaf yn yr ystyr yr ysbrydolir llawer o fy ngwaith gan fy mhrofiadau o fod yn berson du mewn amgylchedd hollol wyn a sut mae hyn wedi effeithio ar fy synnwyr o berthyn a'm ymdeimlad o hunaniaeth.

Rwy'n aml yn chwilio am ysbrydoliaeth o lyfrau — dylanwadodd *Don't Touch My Hair* gan Emma Dabiri a *Radical Decadence* gan Dr Julia Skelly yn anferthol arnaf yn ddiweddar, ynghyd â gwaith artistiaid megis Alison Saar, Caroline Achaintre, Wangechi Mutu a Tschabalala Self.

Dwi ddim yn hollol siŵr beth all y sector celfyddydau yng Nghymru ei wneud i gefnogi artistiaid o liw yng Nghymru gan fy mod bellach yn byw ym Manceinion ac nid wyf yn bwriadu dychwelyd i Gymru er fy mod yn ffyrnig o falch o fod yn Gymraes ac eisiau bod yn agosach at fy nheulu.

Cefais nifer o brofiadau erchyll o hiliaeth wrth dyfu lan yng Ngogledd Cymru ac yn anffodus nid wyf yn credu bod pethau wedi newid ddigon i mi i ystyried o ddfiri y gallwn dychwelyd, yn enwedig wrth ystyried bod fy mhartner a minnau yn meddwl dechrau teulu yn y blynyddoedd nesaf — ychydig wythnosau yn ôl dioddefodd fy chwaer sy'n byw nôl adref gamdriniaeth hiliol gan gymydog.

BYWGRAFFIADAU

Tegwen Bruce-Deans: Yn wreiddiol o Lundain ond wedi'i magu yng nghefnwlad Maesyfed, mae Tegwen bellach yn fyfyrwr Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Os nad yw hi draw yn Glôb, fedrwch chi ei chanfod rhwng môr a mynydd ar y pier; clustffonau mewn, llyfr mewn llaw.

Seran Dolma: Mae Seran yn byw ym Mhenrhyndeudraeth gyda'i phartner a'u plant. Mae hi'n trio sgwennu nofel, ond mae ei gliniadur hi wedi torri, ac mae'r plant yn cwffio, ac mae'r ieir yn yr ardd lysiau yn bwyta'r mefus eto. Dydi ieir ddim hyd yn oed yn medru blasu'r gwahaniaeth rhwng mefus a malwod, mae nhw jyst yn hoffi pethau coch. Lwcus nad oes ganddi swydd go iawn.

Efa Edwards: Brodor o Landre ger Aberystwyth yw Efa Mared, sydd bellach yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd. Mae'n un o sefydlwyr-olygyddion cylchgrawn *Cara*, ac mae wedi cyfieithu sawl llyfr i blant. Dyma yw ei darn cyntaf ar gyfer y Stamp.

Cerys Hafana: Mae Cerys Hafana yn delynores deires, pianydd a chyfansoddwr o Fachynlleth. Gyda gwreiddiau dwfn yng ngherddoriaeth draddodiadol Cymru mae hi rwan yn dilyn thrywydd ei hun, gyda diddordeb mewn cerddoriaeth o bob math. Ei phrif ysbrydoliaethau yw sŵn y glaw a hwiangerddi, ac mae hi'n defnyddio technegau ac effeithiau ar y deires, gyda'i thair rhes o dannau, er mwyn adleisio sŵn iaith a thywydd Cymru.

Megan Hunter: Daw Megan o Benygroes, Dyffryn Nantlle, ond mae hi bellach yn astudio Cymraeg ac Athroniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Cyhoeddwyd stori fer ganddi yn rhifyn Haf 2019 *O'r Pedwar Gwynt* a bydd Gwasg y Lolfa'n cyhoeddi ei nofel gyntaf eleni. Yn bennaf, mae hi'n mwynhau ysgrifennu ar gyfer oedolion ifanc.

Ceinwen Jones: Helo! Ceinwen dwi a dwi'n dod o Ddeiniolen yn wreiddiol. Dwi'n astudio MA Ysgrifennu Creadigol yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Bangor ar hyn o bryd. Dw i wastad wedi bod wrth fy modd yn sgwennu a darllen felly dwi mor hapus o gael gwneud hynny a'i alw'n 'waith' coleg!

Gareth Evans-Jones: Daw Gareth o Draeth Bychan ger Marian-glas, Ynys Môn. Mae'n ddarlithydd Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor. Mae hefyd yn potshian sgwennu, wedi cyhoeddi nofel o'r enw *Eira Llwyd*, ac wedi bod yn ffodus o ennill y Fedal Ddrama

yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 am ei ddrama, 'Adar Papur.'

Cain Muse: Mae Cain yn dod o Ddyffryn Nantlle ac yn canu'r feiolin.

Naomi Nicholas: Naomi ydw i, athrawes Cymraeg a Drama o Efail-wen sydd bellach yn byw ym Mhontsian, Ceredigion. Pan nad wyf i yn y dosbarth dwi'n dwlu 'sgwennu dramâu a straeon byrion sy'n taflu golau ar gefn gwlad Gorllewin Cymru.

Carlota Nobrega: Mae gwaith Carlota Nobrega yn archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng realiti digidol a chorfforol, trwy adlewyrchu bywyd ei 'alter ego' digidol, Super Sexy Lota. Mae'n defnyddio gemau electronig fel arf i gopio ac atgynhyrchu tirweddau a gwrthrychau digidol. Mae'r gwrthrychau hyn, wedi iddynt gael eu dylunio i adlewyrchu'r byd go iawn, yn dod yn rhan o gylchred ddigidol.

Ela Pari: Ela Pari dwi, merch ffarm o Aberdaron. Wedi mi fod yn Ysgol Uwchradd Botwnnog es ymlaen wedyn i Goleg Meirion Dwyfor ym Mhwillheli i astudio lefel A yn y Gymraeg, Y Gyfraith a Mathemateg. Yn fy amser hamdden dwi wrth fy modd yn sgwennu yn greadigol am unrhyw beth dan haul. Fy ngobaith, ar ôl yr haf, yw mynd i astudio'r Gyfraith gyda'r Gymraeg ym Mangor.

Radha Patel: Mae Radha Patel yn lenor, adolygydd ac artist, wedi lleoli yng Nghaerdydd a'i geni yng Nghymru. Mae ei gwaith yn croestori trefedigaethedd, natur, crefydd a'r dyfodol. Mae'n mwynhau defnyddio llenyddiaeth fel ffordd o herio canfyddiadau hanesyddol o'r cywir/ anghywir/ digwyddodd hyn / digwyddodd arall, ac mae ei gwaith wedi ei gyhoeddi mewn sawl cylchgrawn a chasgliad, gan gynnwys *Where I'm Coming From*, *the Soap Box Press*, *3am Magazine*, *Amber Flora Zine*, a *The Cardiff Review*. Mae hefyd wedi arddangos gwaith yn g39 and shift gallery.

Angharad Price: Mae Angharad Price yn Athro yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Cyhoeddir cyfrol o ysgrifau ganddi, dan y teitl *Ymbapuroli*, gan Wasg Carreg Gwalch yn yr hydref.

Hammad Rind: Mae Hammad yn awdur a ieithydd o Punjab, Pakistan yn wreiddiol. Mae'n byw erbyn hyn yng Nghaerdydd. Mae wedi ei gyfareddu gan y syniad o iaith fel cyfrwng cyfathrebu pwerus. Mae ganddo ddeg iaith, gan gynnwys Urdu, Persieg, Twrceg, Eidaleg, a Ffrangeg. Mae ei waith wedi ei gyhoeddi mewn sawl cylchgrawn, papur a chasglad, gan gynnwys *The*

Madras Courier, Porridge Magazine ac antholeg WICF (2019). Mae nofel gyntaf Hammad, *Four Dervishes*, yn ddydychan cymdeithasol, wedi seilio ar ddstan gan yr awdur Persieg, Amir Khosrow. Bydd yn cynnwys elfennau o realaeth hudol, ac mae yn y broses o chwilio am gyhoeddwr addas, ar ôl derbyn diddordeb cynnar.

Melissa Rodrigues: Mae Melissa Milanca Balencante Rodrigues yn artist celfyddyd gain o Abertawe. Wedi ei geni yn Guinesau Bissau, bu'n byw ym Mhortiugal o oed ifanc hyd 2016, ac fe'i cyflwynwyd i waith creadigol yn yr ysgol uwchradd. Roedd ei chefnidir academaidd mewn meysydd gwyddonol, a'i huchelgais oedd bod yn ymarferydd nyrsio.

Ar ôl tin droi dros wahanol opsiynau, yn 2016 penderfynodd Rodrigues ddod i astudio celfyddyd gain ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Graddiodd oddi yno gyda BA ac anrhydedd dosbarth cyntaf yng Nghorfennaf 2019.

Bethan Sleep: Brodor o Benrhyn Gwyr yw Bethan Sleep, sydd ar hyn o bryd yn byw ac yn gweithio fel athrawes yng Nghaernarfon. Er bod Bethan yn marcio mwy o adolygiadau na mae'n ysgrifennu erbyn hyn, mae'n dal i fwynhau ysgrifennu -- yn enwedig am fwyd! Dyma ei hail ddarn ar gyfer Y Stamp.

Alaw Fflur Tomos: Yn wreiddiol o Ddolgellau, mae Alaw Tomos bellach yn byw ac yn ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn Maenceinion. Mae ei barddoniaeth yn ymwneud â themau fel archifaeth, iaith, natur, côf, tîr ac amser, gan bwysleisio nodweddion synhwyraidd yn ei harddull.


Dilynwch Alaw ar Instagram @alaawfflur am unrhyw ddiweddariadau.

Judith Musker Turner: Mae Judith Musker Turner yn fardd ac arlunydd tecstilau o Ffair Rhos, Ceredigion, sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd. Graddiodd o Brifysgol Caerdydd gyda MA Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd o Brifysgol Caerdydd yn 2019. Mae hi'n perfformio gyda'r grŵp barddol Cywion Cranogwen ac yn nosweithiau Bragdy'r Beirdd. Mae hi wedi cyhoeddi cerddi yn Y Stamp a *Barddas* ac mae hi'n aelod o dîm Talwrn Y Gwenoliaid. Yn ddiweddar, arddangosodd ei gwaith celf yn rhyngwladol am y tro cyntaf yn Suns Europe, gŵyl ieithoedd lleiafrifol Ewropeaidd yn Udine yn yr Eidal.

Georgia Ruth Williams: Mae Georgia Ruth yn gerddor a chyflwynydd radio i BBC Radio Cymru. Hyd yma, mae hi wedi rhyddhau tair albym - *Week of Pines*, *Fossil Scale* a *Mai*. Mae hi'n byw gyda'i theulu yn Aberystwyth.

EISIAU GWELD EICH GWAITH YN Y RHIFYN NES?
CYSYLLTWCH! GOLYGYDDION.YSTAMP@GMAIL.COM

AMSER MYND



Dyfan Lewis

CYNNIG ARBENNIG

Llyfr o ysgrifau taith gan Dyfan Lewis yw *AMSER MYND*, sy'n dadansoddi'r profiad o deithio gan ystyried iaith, hil, arian a diwylliant.

Defnyddiwch y cod [STAMP20](#) wrth dalu er mwyn cael 20% o ostyngiad ar wefan [Gwasg Pelydr](#).

[gwasgpelydr.com](#)

Llên Llên

5-6 Rhes Meitr,
Pwllheli

Dewis eang o lyfrau,
cryno-ddisgiau a
chardiau.

01758 612907
llenllyn@btconnect.com

Gwasanaeth post.



LLUN: MELISSA RODRIGUES.
gweler tudalen 18

CYHOEDDIADAU'R STAMP

CELF Y CLAWR: ANYA PAINTSIL

£4.00

